



YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:

117/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

14/12/2023

Gwerthusiad o'r rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant (Datblygu'r Gweithlu Gofal Plant a Chwarae) 2019-2023

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 ISBN digidol 978-1-83504-862-7

Gwerthusiad o'r rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant
(Datblygu'r Gweithlu Gofal Plant a Chwarae) 2019-2023

Awduron: Brett Duggan, Jennifer Lane, Sioned Lewis, Lois
Roberts. Ymchwil Arad

Adroddiad Ymchwil Llawn: Duggan, B., et al (2023). Gwerthusiad o'r rhaglen
Cynnydd ar gyfer Llwyddiant (Datblygu'r Gweithlu Gofal Plant a Chwarae) 2019-
2023, adroddiad GSR rhif 117/2023.

Ar gael yn: [https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-rhaglen-cynnydd-ar-gyfer-
llwyddiant](https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-rhaglen-cynnydd-ar-gyfer-llwyddiant)

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r
safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Kim Wigley

Adran: Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 8099

E-bost: KASEmployabilityandSkillsResearch@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o ffigurau a thablau	2
1. Cyflwyniad a disgrifiad o'r rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant.....	4
2. Methodoleg	12
3. Trosolwg o sut y cyflawnwyd y rhaglen.....	18
4. Canfyddiadau: Y Ffordd y Cyflawnwyd y Rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant	22
5. Canfyddiadau: Deilliannau'r Rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant.....	37
6. Gwerth am arian	51
7. Astudiaethau achos	56
8. Casgliadau	65
Atodiad 1: Model Rhesymeg Cynnydd ar gyfer Llwyddiant.....	71
Atodiad 2: Offer Ymchwil	72
Atodiad 3: Hysbysiadau Preifatrwydd.....	90

Rhestr o ffigurau a thablau

Ffigur 1.1: Cymwysterau Cynnydd ar gyfer Llwyddiant	9
Tabl 3.1: Costau a gwariant terfynol a gymeradwywyd gan Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, 2016-2023	20
Tabl 4.1: Cyfranogwyr fesul llwybr ar gyfer Cynnydd ar gyfer Llwyddiant 2019-2023	26
Tabl 5.1: Nifer a chanran wedi'u targedu o ymarferwyr ar gyfer Cynnydd ar gyfer Llwyddiant (y rhaglen gyfan 2016-2023), yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd	47
Tabl 6.1: Costau cymeradwy a gwirioneddol (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd).....	52

Geirfa

Acronym/Allweddair	Diffiniad
DC	Dwyrain Cymru (rhanbarth cyllid Ewropeaidd)
ESF	Cronfa Gymdeithasol Ewrop
GCC	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (rhanbarth cyllid Ewropeaidd)
L2 APP	Dyfarniad L2 mewn Arfer Gwaith Chwarae
P3	Cyfres o gymwysterau Gwaith chwarae: Egwyddorion ar Waith (P3).
PfS	Cynnydd ar gyfer Llwyddiant
Safonau Gofynnol Cenedlaethol	Safonau sy'n amlinellu'r gofyniad i staff gofal plant a gwaith chwarae feddu ar gymwysterau sy'n briodol i'w swyddi.
WEFO	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

1. Cyflwyniad a disgrifiad o'r rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant

- 1.1 Mae'r gweithluoedd gofal plant a gwaith chwarae yn hollbwysig o ran sicrhau darpariaeth blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae o safon. Ariannodd y rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant (PfS) weithwyr presennol i ymgymryd â chymwysterau cydnabyddedig yn y meysydd gofal plant a chwarae er mwyn cynyddu eu sgiliau. Mae'r adroddiad gwerthuso hwn yn edrych ar weithrediad y rhaglen PfS ac yn gwerthuso ei heffaith ar hyfforddiant a chymwysterau'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae.
- 1.2 Cafodd y rhaglen PfS ei hariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a'i gweinyddu gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) o fewn Echel Blaenoriaeth 3 Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc, Amcan Penodol 4: Cynyddu sgiliau'r gweithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCC). Roedd y rhaglen PfS hefyd ar gael i weithwyr yn Nwyrain Cymru (DC), wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, felly roedd yr holl gyfleoedd hyfforddi ar gael ledled Cymru.¹
- 1.3 Cyfnod gwreiddiol y rhaglen PfS oedd 2016 i 2019 a chafodd ei hymestyn am gyfnod arall, o 2019 i 2023. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod 2019 i 2023 ond mae'n cyflwyno data ar draws y cyfnod cyfan o 2016-2023, lle nad yw ffynonellau data yn ein galluogi i wahaniaethu rhwng dau gyfnod y rhaglen. Mae'r adroddiad yn defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth sy'n ymwneud ag ardal GCC a ariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac ardal DC a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ond mae'n amlygu tystiolaeth sy'n ymwneud yn benodol â phob rhanbarth lle y bo'n berthnasol.

Y rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant

Nod

- 1.4 Ariannodd y rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant (PfS) weithwyr presennol i ymgymryd â chymwysterau cydnabyddedig ar gyfer gofal plant a chwarae er mwyn cynyddu eu sgiliau. Y nod terfynol, fel y nodwyd yn y Cynllun Busnes gwreiddiol ar

¹ Fe wnaeth Rhaglen y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCC) gyllido gweithrediadau yn yr awdurdodau lleol canlynol: Ynys Môn; Gwynedd; Conwy; Sir Ddinbych; Ceredigion; Sir Benfro; Sir Gaerfyrddin; Abertawe; Castell-nedd Port Talbot; Pen-y-bont ar Ogwr; Rhondda Cynon Taf; Merthyr Tudful; Caerffili; Blaenau Gwent; a Thorfaen. Ceir rhagor o fanylion yn [Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: Rhaglen weithredol Cronfa Gymdeithasol Ewrop \(ESF\) 2014 i 2020 - Crynodeb | LLYW.CYMRU](#)

gyfer PfS 2016-2019, oedd gwella ansawdd y ddarpariaeth a gynnigir i'r plant ieuengaf, gan fod tystiolaeth yn awgrymu bod gweithlu medrus iawn yn arwain at ddeilliannau addysgol gwell i blant, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig.²

1.5 Gan gyfeirio at y profiadau yn sgil gweithredu'r rhaglen PfS o 2016-2019, nod yr ail gyfnod, o gynhaliwyd o 2019-2023, oedd:

- datblygu capasiti a gallu'r sector drwy ehangu'r gyfres o gymwysterau sydd ar gael i'r gweithlu;
- galluogi cyflogwyr a lleoliadau i fodloni gofynion cymwysterau Cynnig Gofal Plant Cymru a gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol erbyn 2022;^{3,4}
- cyfrannu at y weledigaeth o weithlu gofal plant a chwarae uchel ei barch o ansawdd uchel sy'n cael ei gefnogi gan ddatblygiad proffesiynol parhaus;
- cefnogi nodau Cymraeg 2050 drwy gynyddu hyder ymarferwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau, gan sicrhau bod mwy o blant yn dod i gysylltiad â'r iaith;⁵
- cynyddu ansawdd gofal plant a chwarae, gyda'r nod o wella datblygiad plant a chyfrannu at yr ymdrechion i drechu tlodi.

1.6 Cafodd y deilliannau a'r effaith y bwriadwyd i'r PfS eu cyflawni eu hamlinellu mewn model rhesymeg a baratowyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen, fel y nodir yn Atodiad 1. Mae model rhesymeg yn dangos sut y byddai'r mewnbynnau (buddsoddiad gan ESF a Llywodraeth Cymru) a'r gweithgareddau (caffael cymwysterau gofal plant a chwarae) yn cyfrannu at y deilliannau a ddymunir. Y deilliannau yn y tymor byr oedd cynnydd yng ngwybodaeth a sgiliau ymarferwyr, uwchsgilio'r gweithlu mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai cofrestredig a'u hannog i wneud cais am gofrestrriad gydag AGC (Arolygiaeth Gofal Cymru); mwy o ymarferwyr yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ryngweithio â phlant; codi ymwybyddiaeth o ESF; mwy o unigolion anabl a phobl o gymunedau du a

² Cynllun Busnes Cynnydd ar gyfer Llwyddiant (PfS) 2014-2018 (Saesneg yn unig), Fersiwn dyddiedig Ionawr 2017. Llywodraeth Cymru, (Heb ei gyhoeddi).

³ [Cynnig Gofal Plant Cymru](#)

⁴ Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn amlinellu'r gofyniad i staff gofal plant a gwaith chwarae feddu ar gymwysterau sy'n briodol i'w swyddi. Erbyn 30 Medi 2022 dylai lleoliadau sy'n cynnig darpariaeth y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod y gwyliau sicrhau bod cyfran briodol o staff yn meddu ar gymwysterau gwaith chwarae addas, fel y nodir yn y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir | LLYW.CYMRU](#). Manylion yn [Dyddiad cau cymwysterau gwaith chwarae | LLYW.CYMRU](#)

⁵ Cymraeg 2050 yw strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru gyda'r uchelgais o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Manylion yn [Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYMRU](#)

lleiafrifoedd ethnig yn cael eu denu i'r sector a'r sector a rhanddeiliaid yn dysgu gwersi.

- 1.7 Y deilliannau y bwriadwyd eu cyflawni yn y tymor canolig i'r hirdymor oedd cynnydd cyffredinol yn ansawdd y gofal plant a gwaith chwarae a ddarperir, y byddai lleoliadau wedi'u paratoi'n ddigonol i fodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol erbyn 2022, bod PfS yn cefnogi cynaliadwyedd a thwf o fewn y sector a bod mwy o rieni yn gallu cael gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 1.8 Yr effeithiau a fwriadwyd oedd gwell datblygiad ymysg plant, cyfrannu at drechu tlodi, datblygu capasiti a gallu o fewn y sector, a chefnogi targedau Cymraeg 2050.

Rhesymeg

- 1.9 Cyflwynwyd y rhaglen PfS ym mis Awst 2016 gyda'r nod o ddarparu cyfleoedd i uwchsgilio ymarferwyr y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae 25 oed a hŷn ledled Cymru. Fe wnaeth y rownd gychwynol rhwng 2016 a 2019 (nid ffocws y gwerthusiad presennol) alluogi ymarferwyr i uwchsgilio i lefelau 2 a 3 drwy fframwaith prentisiaeth yn ardal GCC yn ogystal â DC.⁶ Fe'i cynlluniwyd yn wreiddiol i fynd i'r afael ag un o gyfyngiadau'r rhaglen brentisiaeth brif ffrwd, a arferai fod ar gael i unigolion 16-24 oed yn unig. Tra bod y rhaglen PfS yn cael ei dylunio a'i chynllunio, gwnaed newid i'r Rhaglen Brentisiaethau (ym mis Awst 2016), i ddod yn rhaglen pob oed yng Nghymru.⁷ Daeth y gwerthusiad o gyfnod cyntaf y rhaglen i'r casgliad fod y cyhoeddiad polisi i roi rhaglen brentisiaeth pob oed ar waith yn dileu un o'r prif resymau dros fodolaeth y rhaglen PfS gan olygu nad oedd bellach yn llenwi bwch yn y ddarpariaeth a ariannwyd. O ganlyniad, er bod y rhaglen PfS yn cael ei darparu i'r rhai 25 oed a hŷn yn unig, roedd dryswch ar draws y sector gofal plant a chwarae ynghylch sut yr oedd y rhaglen yn wahanol i'r cynnig prentisiaeth ehangach.
- 1.10 Er mwyn bod yn gymwys i elwa o gam cyntaf PfS, roedd hefyd yn ofynnol i weithwyr gael eu cyflogi am o leiaf 16 awr - yn ogystal â bod yn 25 oed neu'n hŷn. Canfu'r gwerthusiad fod y gofyniad hwn wedi atal llawer o weithwyr rhan-amser ar draws y sector rhag manteisio ar y cymwysterau a ariannwyd. Canfu'r gwerthusiad fod y meini prawf cymhwysra yn gyfyngol ac wedi cyfrannu at y ffaith nad oedd y rhaglen

⁶ *Gwerthusiad o Gynnydd ar gyfer Llwyddiant 2016 – 2019* (Saesneg yn unig), Gorffennaf 2020, Ymchwil Arad ar gyfer Llywodraeth Cymru (Heb ei gyhoeddi).

⁷ [Datganiad: Prentisiaethau yng Nghymru](#) (Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth), Cofnod Trafodion y Senedd 14 Mehefin 2016

wedi cyrraedd y targedau a osodwyd ar gyfer nifer y cyfranogwyr dros y cyfnod 2016-2019.⁸

- 1.11 Yn ystod y cyfnod cyflawni 2016 i 2019, bu nifer o ddatblygiadau nodedig yn y sectorau gofal plant, blynyddoedd cynnar a chwarae, megis ehangu Cynnig Gofal Plant Cymru a diwygiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir. Roedd y Cynllun Busnes ar gyfer ail gyfnod y rhaglen yn nodi bod y datblygiadau hyn yn creu angen parhaus i uwchsgilio ymarferwyr sy'n gweithio yn y sectorau gofal plant a chwarae. Roedd y Cynllun Busnes diwygiedig ar gyfer ail gam y rhaglen yn adlewyrchu'r datblygiadau hyn ac yn nodi eu bod yn creu angen parhaus am uwchsgilio o fewn y sectorau gofal plant a chwarae.⁹ Nododd y Cynllun Busnes:

Er mwyn sicrhau nad yw ansawdd y gofal sydd ar gael i rieni a'u plant yn cael ei beryglu, ac er mwyn cefnogi gweithlu sy'n ehangu i uwchsgilio, mae angen cynyddu cwmpas y rhaglen drwy ehangu'r gyfres o gymwysterau sydd ar gael yn ogystal ag ymestyn y Rhaglen PfS tan fis Mawrth 2023. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i'r gweithlu fodloni gofynion cymwysterau'r cynnig gofal plant yn ogystal â darparu cyllid i leoliadau fodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.¹⁰

- 1.12 O fewn cwmpas ehangach yr ail gyfnod, nod y rhaglen PfS oedd dileu'r rhwystrau a wynebwyd yn ystod y cyfnod cychwynol drwy newid ffocws y rhaglen i gefnogi ymarferwyr presennol 18 oed a hŷn, ehangu'r cymwysterau sydd ar gael, a darparu cyfleoedd i uwchsgilio i'r rhai sy'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos. Ceir rhagor o wybodaeth am lwybrau a model cyflawni'r PfS rhwng 2019-2023 ym Mhennod 3.

Cyflawni ail gyfnod y rhaglen PfS 2019-2023

- 1.13 Cafodd y rhaglen PfS ar ei newydd wedd a oedd yn ymestyn tan 2023 ei chymeradwyo gan WEFO. Y rhaglen hon ar ei newydd wedd, a ddechreuodd yn 2019 ac a barhaodd tan 2023, yw ffocws yr adroddiad gwerthuso hwn sy'n asesu effeithiolrwydd y rhaglen newydd o ran diwallu anghenion uwchsgilio'r sector a chefnogi datblygiad proffesiynol ymarferwyr.

⁸ Gwerthusiad o Gynnydd ar gyfer Llwyddiant 2016 – 2019, Gorffennaf 2020, Ymchwil Arad ar gyfer Llywodraeth Cymru (Heb ei gyhoeddi).

⁹ Cynllun Busnes Ailwerthuso Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, Hydref 2018 (Heb ei gyhoeddi, Tudalen 1)

¹⁰ Cynllun Busnes Ailwerthuso Cynnydd ar gyfer Llwyddiant (Saesneg yn unig), Hydref 2018 (Heb ei gyhoeddi, Tudalen 2)

- 1.14 Gosododd y Cynllun Busnes ar ei newydd wedd darged o 2,849 o gyfranogwyr o ardal GCC ar gyfer cyfnod gweithredu cyfan PfS, sef 2016-2023. Ni osodwyd targed ar gyfer DC. Cymeradwywyd proffil cyflawni diwygiedig yn 2018 ar gyfer ail gyfnod y rhaglen PfS, sef 2019-2023, gyda tharged o 2,247 o gyfranogwyr ar gyfer GCC a 1,564 ar gyfer DC.
- 1.15 Darparodd y rhaglen PfS dri llwybr gwahanol o gymwysterau ar gyfer y gweithlu fel y nodir yn ffigur 1.1.

Ffigur 1.1: Cymwysterau Cynnydd ar gyfer Llwyddiant

Cymwysterau	Disgrifiad a chymhwystra	Dyddiad dechrau	Darparwyr Hyfforddiant¹¹
Llwybr 1: Prentisiaeth Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (CCPLD).	Hyfforddiant seiliedig ar waith ar lefel 2 neu 3 i ymarferwyr presennol sy'n gweithio rhwng 10 ac 16 awr yr wythnos.	O fis Medi 2019	ACT Ltd Cwmni Hyfforddiant Cambrian Coleg Cambria WBL Coleg Gŵyr Abertawe Grŵp Llandrillo Menai ITEC Training Solutions Ltd Coleg Castell-nedd Port Talbot Coleg Sir Benfro Educ8 Training
Llwybr 2: Prentisiaeth gwaith chwarae	Hyfforddiant seiliedig ar waith i ymarferwyr presennol sy'n gweithio rhwng 10 ac 16 awr yr wythnos	O fis Medi 2019	Fel uchod
Llwybr 3: Llwybr at Chwarae Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae	Cymhwyster gwaith chwarae ar gyfer unigolion sydd eisoes â chymwysterau gofal plant neu flynyddoedd cynnar. Gellir ei gyflwyno dros 5 mis gyda sesiynau gweithdy ac aseiniadau rhithwir (neu wyneb yn wyneb).	O fis Chwefror 2021 ymlaen	ACT Ltd Aspiration Training Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
Llwybr 3: Llwybr at Chwarae Dyfarniad L2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2 APP)	Cymhwyster cam cyntaf gyda'r bwriad o ddarparu sylfaen dda o wybodaeth am chwarae a gwaith chwarae. Gellir ei gyflwyno dros 12 hanner diwrnod/noson.	O fis Chwefror 2022 ymlaen	Addysg Oedolion Cymru ¹²
Llwybr 3: Llwybr at Chwarae Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P3) ar Lefelau 2 a 3	Cyfres o gymwysterau a ddatblygwyd gan Chwarae Cymru, wedi'u cynllunio i ddarparu llwybr effeithiol i gymhwyso fel gweithiwr chwarae.	O fis Chwefror 2022 ymlaen ¹³	Addysg Oedolion Cymru

¹¹ Rhannwyd y contractau hyfforddi yn lotiau gyda darparwyr hyfforddiant wedi'u contractio i ddarparu mewn gwahanol rannau o DC a GCC.

¹² Dyfarnwyd y contract i ail gyflenwr ar gyfer rhan o DC, ond trosglwyddodd y contract yn ôl oherwydd ei anallu i fodloni'r meini prawf ar gyfer cyflawni'r hyfforddiant.

¹³ Roedd pedwar dysgwr wedi cofrestru ar gwrs P3 ond ar ôl gwiriadau nid ystyriwyd eu bod yn gymwys o dan y rhaglen PfS ac ni chawsant eu cynnwys yn nata monitro PfS.

1.16 Y prentisiaethau yn CCPLD a Gwaith Chwarae oedd y tro cyntaf i'r cymwysterau hyn fod ar gael i unigolion sy'n gweithio'n rhan-amser na fyddent fel arall wedi gallu gwneud cais am brentisiaeth oherwydd eu bod yn gweithio llai nag 16 awr yr wythnos. Roedd y Cynllun Busnes ar gyfer y rhaglen yn nodi:

Mae'r Ymgyrch ar ei newydd wedd yn bwriadu treialu'r cymhwyster CCPLD newydd (sydd ar gael i'w addysgu o fis Medi 2019) a'r Brentisiaeth Gwaith Chwarae i ymarferwyr sy'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos, ac na allant gael mynediad i'r Rhaglen Brentisiaeth brif ffrwd. Bydd hyn er mwyn penderfynu a ellid cynnwys rhagor o hyblygrwydd ym Mholisiâu Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector hwn. Bydd y Brentisiaeth yn rhoi cyfleoedd i unigolion ennill cymhwyster galwedigaethol sector-benodol yn ogystal â sgiliau hanfodol.¹⁴

1.17 Yn hynny o beth, yn achos y cymwysterau CCPLD a Gwaith Chwarae, rhoddodd y rhaglen PfS gyfle i gael cyfnod cyflawni estynedig o dair blynedd er mwyn i ymarferwyr sy'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos ennill eu cymwysterau a bodloni'r gofyniad i feddu ar gymhwyster 80 credyd. Bwriad y trefniadau hyn oedd darparu mwy o hyblygrwydd ac, yn ôl y Cynllun Busnes, ystyried a ellir cael mwy o hyblygrwydd gyda'r brentisiaeth hon, gan gydnabod bod y llwybr prentisiaethau wedi eithrio rhai lleoliadau rhag bod yn gymwys i gael cyllid; a bod y gofyniad i weithio 16 awr neu fwy yr wythnos yn her arbennig i gylchoedd chwarae y tu allan i oriau ysgol a lleoliadau gofal/blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sydd fel arfer yn gweithredu rhwng 10 a 12 awr yr wythnos.

1.18 Yn ôl y Cynllun Busnes, a chyfweiliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru, roedd y cymwysterau L2 APP a Thrawsnewid i Waith Chwarae ar gael i helpu'r sector chwarae i sicrhau'r cymwysterau perthnasol i fodloni gofynion cofrestru'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol diwygiedig erbyn mis Medi 2022.¹⁵

¹⁴ Fersiwn Terfynol Cynllun Busnes Ailwerthuso Cynnydd ar gyfer Llwyddiant (Saesneg yn unig), Hydref 2018. Llywodraeth Cymru (Heb ei gyhoeddi, tudalennau 12-13)

¹⁵ Gweler [Dyddiad cau cymwysterau gwaith chwarae | LLYW.CYMRU](#)

Y cyd-destun: Yr angen am y rhaglen PfS

- 1.19 Mae Cynllun Busnes y rhaglen PfS yn nodi pwysigrwydd uwchsgilio'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae, gan egluro ei bod yn hanfodol rhoi'r sgiliau a'r cymwyseddau angenrheidiol i bawb sy'n gyfrifol am ofalu am blant ifanc er mwyn cefnogi datblygiad corfforol, cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol plant.¹⁶ Mae angen i hyfforddiant a chymwysterau fod ar gael yn hawdd, a chynnig y datblygiad gorau posibl i aelodau'r gweithlu, gan eu galluogi i ddeall sut y mae plant yn dysgu ac yn datblygu. Bydd hyn, yn ei dro, yn eu helpu i strwythuro gweithgareddau, amser, ac amgylcheddau i gefnogi pob plentyn i gyrraedd ei lawn botensial.
- 1.20 Ymhellach, mae'r Cynllun Busnes yn egluro bod gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo twf economaidd a threchgu tlodi ac yn nodi bod tystiolaeth yn dangos bod darpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn cael effeithiau cymdeithasol cadarnhaol. O'r herwydd, mae'n cyflwyno'r achos dros fwy o fuddsoddiad cyhoeddus yn y blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau ffyniant economaidd yn y dyfodol, ond mae'n nodi ei bod yn cymryd amser i fanteision gofal plant a gwaith chwarae o ansawdd uchel gael eu gwireddu. Yn ôl y Cynllun Busnes, mae cysylltiad clir rhwng gofal plant a thwf economaidd. Mae gofal plant yn alluogwr, yn gyflogwr ac yn addysgwr, ac mae pob un o'r rhain yn cefnogi'r agendâu twf a threchgu tlodi.
- 1.21 Cynlluniwyd y rhaglen PfS hefyd i ddarparu cyfleoedd i ymarferwyr ehangu'r ddarpariaeth a'r gofal y maent yn eu cynnig, sef cefnogi – ar yr adeg y cafodd ei dylunio – yr ehangu posibl i'r sector oherwydd y Cynnig Gofal Plant a oedd newydd gael ei sefydlu ar y pryd. At hynny, y bwriad oedd darparu cyfleoedd i'r gweithlu wella eu safonau a'u sgiliau gan gefnogi'r weledigaeth a amlinellir yn nogfen Llywodraeth Cymru, Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (2013) i ddatblygu gweithlu gofal plant a chwarae â chymwysterau da sy'n gallu manteisio ar gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus.¹⁷

¹⁶ Cynllun Busnes Cynnydd ar gyfer Llwyddiant (PfS) 2014-2018 a Chynllun Busnes Ailwerthuso Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, (Saesneg yn unig) Hydref 2018. Llywodraeth Cymru (Heb ei gyhoeddi).

¹⁷ [Datganiad Ysgrifenedig - Cyhoeddi Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant \(17 Gorffennaf 2013\) | LLYW.CYMRU](#)

2. Methodoleg

2.1 Roedd ffocws y gwerthusiad ar archwilio effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac effaith y rhaglen PfS. Amcanion y gwerthusiad, fel y nodir yn y fanyleb ymchwil, oedd:

- Asesu i ba raddau y cyflawnwyd nod cyffredinol, amcanion, allbynnau a deilliannau disgwylidig PfS.
- Asesu effaith ac effeithiolrwydd PfS o ran cynyddu sgiliau gweithluoedd y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae ac unrhyw wahaniaethau ar lefel sector neu is-sector.
- Asesu'r cynlluniau peilot CCPLD a chymwysterau Gwaith Chwarae o ran hyblygrwydd a darpariaeth estynedig o fewn fframwaith Prentisiaeth.
- Ymchwilio i effaith cymryd rhan yn PfS ar batrymau recriwtio cyflogwyr ac ymgysylltiad â datblygu sgiliau a hyfforddiant.
- Asesu i ba raddau y mae PfS yn cyd-fynd ac yn integreiddio â mentrau eraill.
- Asesu sut y mae PfS wedi perfformio yn erbyn nodau, amcanion ac ymrwymadau Themâu Trawsbynciol yr UE, yn ogystal â dangosyddion sy'n gysylltiedig â'r Themâu Trawsbynciol (gweler y rhestr ym mharagraff 5.31).¹⁸ I gynnwys,
 - Pa mor llwyddiannus fu'r rhaglen o ran cyrraedd ei grwpiau targed?
 - Sut y mae'r rhaglen wedi cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?¹⁹
 - Sut y defnyddiwyd y pecyn cymorth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant? A oes unrhyw fanteision wedi'u gwireddu e.e. cynnydd yn nifer y cyfranogwyr o gymunedau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; cynnydd yn nifer y cyfranogwyr anabl etc?
- Asesu sut y mae'r rhaglen wedi cyfrannu at nodau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.
- Asesu gwerth am arian y rhaglen.
- Nodi cryfderau allweddol y rhaglen ac unrhyw gyfyngiadau/materion a allai fod wedi amharu ar ei heffeithiolrwydd.
- Cyflwyno argymhellion a gwersi a ddysgwyd er mwyn bod yn sail i bolisïau yn y dyfodol sy'n cefnogi datblygu sgiliau.

¹⁸ Gweler Atodiad 3

¹⁹ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015: Yr Hanfodion gan lywodraeth Cymru](#) (Llywodraeth Cymru)

- 2.2 Un o amcanion eraill yr ymchwil oedd gwerthuso effaith y rhaglen, gan gynnwys dadansoddiad o ddi-fuddiant a dadleoli. Bu'r amcan hwn yn heriol i'w gyflawni oherwydd prinder data a diffyg gwybodaeth gyswllt (gweler hefyd baragraff 2.13 am ragor o wybodaeth am gyfyngiadau'r fethodoleg). Mae asesiad rhannol wedi'i gynnwys ym Mhennod 6.
- 2.3 Mabwysiadwyd dull cymysg ar gyfer y gwerthusiad, a oedd yn cynnwys ymchwil desg i adolygu dogfennau perthnasol y rhaglen, dadansoddi data monitro a chyfweliadau â darparwyr hyfforddiant, rhanddeiliaid, cyfranogwyr a chyflogwyr. Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth a gasglwyd o'r amrywiol ffynonellau hyn.

Ymchwil desg a dadansoddi data monitro

- 2.4 Adolygwyd dogfennau perthnasol y rhaglen ar gyfer y gwerthusiad, gan gynnwys dogfennau polisi, llythyrau grant a Chynllun Busnes PfS. Diben hyn oedd cael dealltwriaeth fanwl o'r rhaglen, ei nodau, ei sail resymegol, ei chynllun a'i chyflwyniad ac asesu ei chydweddiad strategol a'i haliniad â mentrau eraill yng Nghymru, gan gynnwys y canlynol:
- Cynllun Cyflogadwyedd²⁰
 - Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi²¹
 - Trechu Tlodi a Chydraddoldeb (gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)
 - Gweledigaeth Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar²².
- 2.5 Dadansoddwyd data monitro cyfranogwyr fel y'i cofnodwyd ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru i ddarparu niferoedd cyffredinol y cyfranogwyr a oedd yn ymgymryd â phob cymhwyster drwy'r rhaglen PfS, a'u manylion demograffig. Adolygwyd y data ar y gwariant oedd yn gysylltiedig â chyflawni'r rhaglen.

Cyfweliadau gyda darparwyr hyfforddiant

- 2.6 Cynhaliwyd cymysgedd o gyfweliadau dros y ffôn a chyfweliadau rhithwir gyda darparwyr hyfforddiant a contractiwyd i ddarparu'r rhaglen PfS yn ardaloedd DC a GCC. Rhannwyd manylion cyswllt gan Lywodraeth Cymru ar gyfer deuddeg

²⁰ [Cynllun Cyflogadwyedd 2018](#)

²¹ [Cynllun Gweithredu Economaidd](#)

²² [Datganiad Ysgrifenedig: Lansio dull gweithredu Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar \(24 Hydref 2019\) | LLYW.CYMRU](#)

darparwr hyfforddiant – contractiwyd naw i ddarparu'r llwybr prentisiaeth, contractiwyd tri darparwr arall i ddarparu'r cymwysterau Llwybr at Chwarae (gweler Ffigur 1.1 am restr o'r darparwyr hyfforddiant). Gwahoddwyd pob darparwr i gymryd rhan mewn cyfweiliad a arweiniodd at gyfweiliadau ag unigolion o saith darparwr hyfforddiant. O blith y pump arall, nid atebodd un, ac esboniodd y lleill nad oeddent yn darparu cymwysterau a ariennir gan PfS i unrhyw ddysgwyr neu eu bod wedi is-gontractio'r hyfforddiant (i ddarparwyr a gyfwelewyd eisoes). Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda darparwyr hyfforddiant ar draws pob llwybr a'r rhai a oedd yn cynnig darpariaeth yn GCC a DC. Roedd y cyfweiliadau hyn yn canolbwyntio ar ddarpariaeth y darparwyr hyfforddiant, yr hyn a oedd yn gweithio'n dda yn eu barn nhw, unrhyw heriau yr oeddent yn eu hwynebu, cyflawniadau yn erbyn y targedau ac unrhyw effeithiau amyn nhw fel darparwyr hyfforddiant yn sgil darparu'r cyrsiau (gweler y canllaw cyfweld yn Atodiad 2).

Cyfweiliadau â rhanddeiliaid eraill

- 2.7 Cynhaliwyd cyfweiliadau dros y ffôn a chyfweiliadau rhithwir â rhanddeiliaid o'r sector y darparodd Llywodraeth Cymru wybodaeth gyswllt ar eu cyfer i'r tîm gwerthuso oherwydd iddynt ymwneud â'r gwaith o ddylunio neu hyrwyddo PfS. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys Blynyddoedd Cynnar Cymru, Mudiad Meithrin, PACEY, Chwarae Cymru a Chlybiau Plant Cymru Kids' Club. Roedd y cyfweiliadau hyn fel arfer yn para tua 45 munud ac yn canolbwyntio ar farn rhanddeiliaid ar gydweidiad strategol y rhaglen PfS, ei dyluniad a'r ffordd y cafodd ei chyflawni, gan gynnwys yr hyn a weithiodd yn dda a'r hyn y gellid ei wella. Mae canllawiau holi ar gyfer y cyfweiliadau hyn i'w gweld yn Atodiad 2.

Cyfweiliadau gyda chyfranogwyr

- 2.8 Cynhaliwyd cyfweiliadau dros y ffôn gyda 28 o gyfranogwyr. Dewiswyd y cyfranogwyr o giplun o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ym mis Tachwedd 2022. Roedd y daenlen hon yn cynnwys manylion 840 o gyfranogwyr unigryw o ardaloedd GCC a DC a oedd wedi cofrestru ar brentisiaeth neu ddyfarniad Trawsnewid i Waith Chwarae.²³ Roedd rhifau ffonau symudol gweithredol ar gael ar gyfer 503 o

²³ Rhannwyd taenlen Tachwedd 2022 gan Lywodraeth Cymru er mwyn rhannu manylion cyswllt cyfranogwyr at ddibenion cynnal cyfweiliadau. Mae nifer y cyfranogwyr a nodir yn adran 4 a ffigur 4.1 yn is gan eu bod wedi'u dewis o ffurflenni hawlio a gyflwynwyd i WEFO ym mis Mai 2023 ar ôl i'r holl wiriadau (e.e. cymhwystra) gael eu cynnal.

gyfranogwyr, yn ogystal â gwybodaeth am ddarparwr cwrs y cyfranogwyr, eu hawdurdod lleol, a oeddent yn siarad Cymraeg ac a oedd ganddynt anabledd. Defnyddiwyd dull samplu haenedig ar hap yn seiliedig ar y nodweddion hyn. Dewiswyd sampl cychwynnol o 32 o gyfranogwyr o'r gronfa ddata ac anfonwyd negeseuon testun at y cyfranogwyr hyn yn eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfweliad dros y ffôn. Roedd y negeseuon testun wedi'u personoli i gynnwys enw'r cyfranogwr a'r cymhwyster yr oedd wedi'i gyflawni. Arweiniodd y rownd gyntaf hon at chwe chyweliad, felly ailadroddwyd y broses gyda samplau pellach nes bod pob cyswllt ar y daenlen wedi cael neges destun. Arweiniodd hyn at gyfanswm o 28 o ymatebion, cyfradd ymateb o ychydig o dan chwech y cant. O blith y rhain, roedd 20 o ardal GCC ac wyth o ardal DC. O ran cymwysterau, roedd 20 wedi dechrau ar y dyfarniad Trawsnewid i Waith Chwarae ac wyth wedi dechrau prentisiaeth. Roedd y cyfranogwyr a gyfwelwyd wedi dilyn cyrsiau gydag un o chwe darparwr hyfforddiant (Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Aspiration Training, ACT Training, Coleg Castell-nedd Port Talbot, Educ8 Ltd, a Choleg Morgannwg).²⁴

- 2.9 Nid oedd manylion cyswllt ar gyfer unigolion a oedd wedi ymgymryd â'r cymhwyster Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2 APP) ar gael, felly ni chynhaliwyd unrhyw gyfweliadau â'r grŵp hwn.
- 2.10 Roedd y cyfweliadau'n canolbwyntio ar resymau'r cyfranogwyr dros ymgymryd â'r cymhwyster a'u profiadau o'r hyfforddiant cyffredinol ar gyfer y cymhwyster. Roedd hyn yn cynnwys eu barn ar gynnwys y cwrs a sut y cafodd ei gyflwyno, y gefnogaeth a gafwyd gan eu darparwr hyfforddiant a'u cyflogwyr tra roeddent yn cwblhau'r cymhwyster, a'r amser a roddwyd iddynt ei gwblhau. Canolbwyntiodd y cyfweliadau ar yr effaith a gafodd y cymhwyster ar wybodaeth a sgiliau'r cyfranogwyr; yr hyn y byddent wedi'i wneud pe na baent wedi ymgymryd â'r cymhwyster PfS; ac unrhyw hyfforddiant pellach yr oedd y cyfranogwyr wedi'i ddilyn neu'n bwriadu ei ddilyn. Mae'r canllaw cyfweld a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfweliadau hyn i'w weld yn Atodiad 2.

²⁴ Yn nhaenlen Tachwedd 2022, rhestrwyd cyfanswm o 13 o ddarparwyr hyfforddiant. Noder nad yw'r rhestr hon yn cyfateb i'r 12 darparwr a restrir yn ffigur 1.1. Yn ystod cyfnod gwaith maes y gwerthusiad, nid oedd rhai o'r darparwyr hyfforddiant cychwynnol yn gweithredu mwyach ac roedd eu dyraniad o ddysgwyr wedi'i drosglwyddo i ddarparwr arall. Hefyd, roedd gan rai o'r darparwyr niferoedd bach iawn o ddysgwyr – roedd saith o'r darparwyr wedi cofrestru deg neu lai o gyfranogwyr.

Cyfweliadau gyda chyflogwyr

- 2.11 Cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn gyda 18 o gyflogwyr yr oedd eu gweithwyr wedi cymryd rhan yn y rhaglen PfS. Roedd 13 wedi'u lleoli yn GCC a phump yn AC (yn erbyn targed o gyrraedd 15 o gyflogwyr). Roedd deg o'r cyflogwyr hyn hefyd wedi cyflawni cymhwyster PfS eu hunain ac felly maent wedi'u cynnwys yn nifer y cyfranogwyr a gyfwelwyd (ym mharagraff 2.7). Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn gyda chyflogwyr yr oedd eu staff wedi'u cefnogi gan un o bum darparwr hyfforddiant: ACT Training, Clybiau Plant Cymru, Coleg Morgannwg, Educ8 Ltd, ac Aspiration Training. Ni chasglwyd manylion cyswllt cyflogwyr fel rhan o'r rhaglen PfS, ac felly defnyddiodd y gwerthuswyr ddau ddull o gysylltu â chyflogwyr. Yn gyntaf, yn ystod y cyfweliadau gofynnwyd i gyfranogwyr a fyddent yn fodlon rhannu neges gan y gwerthuswyr gyda'u cyflogwr. Roedd y neges yn cynnwys gwybodaeth am y gwerthusiad ac yn gofyn i'r cyflogwr gysylltu â'r gwerthuswyr os oedd yn fodlon cymryd rhan mewn cyfweliad byr. Roedd y neges yn egluro y byddai'r cyfweliad yn canolbwyntio ar farn y cyfranogwyr ynghylch y ffordd y darparwyd y cymhwyster a ariannwyd gan PfS yr oedd eu staff wedi'i gyflawni ac effaith y cymhwyster ar sgiliau ac ymarfer. Er i'r cyfranogwyr gytuno i drosglwyddo negeseuon i'w cyflogwyr, ni dderbyniodd y gwerthuswyr unrhyw ymateb gan unrhyw gyflogwr yn cytuno i gymryd rhan.
- 2.12 Gan na chafwyd unrhyw ymatebion drwy'r dull cyntaf hwn, defnyddiodd y tîm gwerthuso ail ddull, sef defnyddio enwau'r cyflogwyr a ddarparwyd gan y cyfranogwyr ar y cam ymgeisio, fel y'u cofnodwyd yn y crynodeb o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a rannwyd gyda'r tîm gwerthuso. Lle roedd enw'r cyflogwr yn glir, cafwyd rhifau ffôn drwy ffynonellau a oedd ar gael i'r cyhoedd – o wefannau cyflogwyr a chyfeiriadur ar-lein Arolygiaeth Gofal Cymru – a gwnaed galwadau i'r cyflogwyr hyn yn gofyn iddynt gymryd rhan.

Cyfyngiadau

- 2.13 Nid oedd manylion cyswllt cyfranogwyr L2 APP ar gael yn ystod yr adeg y gwnaed y gwaith maes fel rhan o'r gwerthusiad; roedd hyn oherwydd bod archwiliad yn cael ei gynnal o'r data i wirio cymhwysra cyfranogwyr. Cynhaliwyd yr archwiliad hwn ar ôl i'r gwaith maes gael ei gwblhau. Felly nid yw canfyddiadau'r gwerthusiad sy'n seiliedig ar adborth cyfranogwyr yn cynnwys profiadau dysgwyr a gwblhaodd y cymhwyster L2 APP.

- 2.14 Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfweiliadau gyda sampl cymharol fach o gyfranogwyr a chyflogwyr. Penderfynwyd mabwysiadu dulliau ymchwil ansoddol yn hytrach na chasglu data drwy arolwg oherwydd natur y wybodaeth gyswllt ar gyfer cyfranogwyr PfS sydd ar gael i'r tîm ymchwil. Ni ddarparwyd unrhyw gyfeiriadau e-bost, a fyddai wedi galluogi'r gwerthuswyr i ddsbarthu arolwg ar-lein yn ehangach ac felly penderfynwyd ceisio cysylltu â chyfranogwyr yn uniongyrchol gan ddefnyddio'r cysylltiadau ffôn a oedd ar gael.
- 2.15 Ni chofnodwyd gwybodaeth am gyflogwyr y rhai a gymerodd ran yn y rhaglen PfS fel rhan o drefniadau monitro'r rhaglen. O ganlyniad, nid oedd unrhyw fanylion cyswllt ar gael ar gyfer cyflogwyr ac nid yw proffil cyffredinol y cyflogwyr a gymerodd ran yn hysbys. Felly, er mwyn casglu manylion cyswllt cyflogwyr, roedd y tîm gwerthuso yn dibynnu ar gefnogaeth cyfranogwyr PfS i nodi unigolion perthnasol, ynghyd â chael gafael ar rifau ffôn lleoliadau drwy chwiliadau ar-lein. Roedd y sampl cyfyngedig a gafwyd drwy'r dulliau hyn yn golygu nad oedd yn bosibl cynnal arolwg o'r holl gyflogwyr. Roedd maint y data a gasglwyd gan gyflogwyr a chyfranogwyr yn gosod cyfyngiadau ar yr asesiad gwerth am arian a oedd yn bosibl fel rhan o'r gwerthusiad. Mae'r asesiad o effeithiolrwydd a deilliannau'r rhaglen a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y setiau data sydd ar gael a gwybodaeth fonitro, a data ansoddol a gasglwyd drwy gyfweiliadau â chyfranogwyr, cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a rhanddeiliaid.

3. Trosolwg o sut y cyflawnwyd y rhaglen

3.1 Mae'r bennod hon yn crynhoi'r rhaglen PfS, gan gynnwys manylion darparwyr hyfforddiant a'r cymwysterau a ddarparwyd. Mae'n amlinellu'r deilliannau o ran nifer y cyfranogwyr ac yn amlygu materion a godwyd yn ystod y gwerthusiad yn ymwneud â chyflawni PfS.

Nodweddion allweddol PfS: Llwybrau a Chymwysterau

3.2 Roedd gan y rhaglen PfS dri phrif lwybr ar gyfer ymarferwyr presennol, fel yr amlinellir isod.

3.3 Y llwybr cyntaf oedd prentisiaeth Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (CCPLD). Nod y llwybr CCPLD oedd treialu'r cymhwyster gofal plant a chwarae newydd (Lefelau 2 a 3) drwy fframwaith Prentisiaeth i ymarferwyr sy'n gweithio rhwng 10 ac 16 awr yr wythnos.

3.4 Yr ail lwybr oedd prentisiaeth Gwaith Chwarae. Nod y llwybr hwn oedd treialu'r cymhwyster Gwaith Chwarae (Lefelau 2 a 3) drwy fframwaith Prentisiaeth i ymarferwyr sy'n gweithio rhwng 10 ac 16 awr yr wythnos.

3.5 Y trydydd llwybr oedd y Llwybr o'r Blynyddoedd Cynnar i Chwarae, a dalfyrir i Llwybr at Chwarae yn yr adroddiad hwn. Nod y llwybr hwn oedd darparu cyfleoedd a chyllid er mwyn i ymarferwyr blynyddoedd cynnar presennol ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau a darparu'r cymwysterau perthnasol iddynt fodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol erbyn mis Medi 2022. Roedd yr elfen hon o'r rhaglen yn cwmpasu dyfarniadau Trawsnewid i Waith Chwarae (O'r Blynyddoedd Cynnar) ar gyfer dysgwyr sydd eisoes â chymwysterau i weithio gyda phlant ac roedd hefyd yn cynnig Dyfarniad L2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2 APP) ledled Cymru o fis Chwefror 2022. Er bod dyfarniad Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P3) a dyfarniad lefel 3 mewn Rheoli Cynllun Chwarae yn ystod y Gwyliau wedi'u cynllunio o dan y llwybr hwn, ni chawsant eu cynnal.

3.6 Yn wreiddiol, cynlluniwyd y rhaglen i ddarparu dau lwybr arall:

- Llwybr at y Gymraeg: byddai'r llwybr hwn yn rhoi cyfleoedd i ymarferwyr ehangu eu sgiliau Cymraeg ac ennill cymhwyster.
- Llwybr Camu i Reoli: (Lefel 4) byddai hyn yn rhoi cyfleoedd i ymarferwyr gael y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i drosglwyddo i rôl reoli o fewn lleoliad

blynyddoedd cynnar a gofal plant. Byddai'r cyfranogwyr yn ennill cymhwyster lefel 4.

- 3.7 Yn y pen draw, ni ddarparwyd yr elfen Llwybr at y Gymraeg o dan PfS. Yn hytrach, darparwyd cyllid i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (y Ganolfan) i gefnogi ei chwrs hunanastudio ar-lein a oedd wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer y gweithlu gofal plant a'r blynyddoedd cynnar. Mae'r Ganolfan wedi bod yn cynnal amrywiaeth o gyfleoedd dysgu i weithwyr mewn gwahanol sectorau i wella eu sgiliau Cymraeg ers 2017 a chafodd y sector Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar ei adnabod fel maes blaenoriaeth. O ganlyniad, datblygodd y Ganolfan Genedlaethol y cyrsiau 'Camau', wedi'u teilwra'n benodol i anghenion y gweithlu hwn. Yn wreiddiol, sesiynau ystafell ddosbarth dan arweiniad tiwtor oedd y rhain, fodd bynnag, oherwydd y pandemig, cafodd y cyrsiau eu hailstrwythuro i fod yn gyrsiau hunanastudio ar-lein.
- 3.8 Defnyddiwyd cyllid PfS i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cyrsiau Camau ac i ddarparu adnoddau ychwanegol i ddysgwyr yn y sectorau gofal plant a chwarae. Mae hyn yn cynnwys hyd at 60 awr o hunanastudio i ddysgwyr fel rhan o gyrsiau Camau ar lefelau 1, 2, a 3; Cyrsiau Camau+ ar gyfer ymarferwyr sydd â gwybodaeth dda o'r Gymraeg ond sydd â diffyg hyder i'w defnyddio. Mae'r cyllid hefyd wedi'i fwriadu i benodi arbenigwr iaith, Cydlynedd Camau, i gefnogi dysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau newydd yn y gweithle.
- 3.9 Ni ddaeth yr arian a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar gyfer cyrsiau Camau o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Felly, nid yw'r cyllid hwn yn rhan o waith ymchwil y gwerthusiad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, ac ni chaiff y ffordd y cafodd ei ddarparu a'i effaith ei drafod yng ngweddill yr adroddiad.
- 3.10 Yn y pen draw, ni ddarparwyd y cymhwyster Camu i Reoli o dan PfS.

Cyllidebau a gwariant a gymeradwywyd

- 3.11 Cyfanswm costau cymeradwy'r rhaglen wedi'i hailbroffilio dros gyfnod cyfan PfS 2016-2023 oedd £6.9 miliwn ar gyfer GCC. Roedd hyn yn cynnwys ychydig o dan £4.7 miliwn mewn costau ESF a £2.2 miliwn mewn arian cyfatebol, gan ddarparu cyfradd ymyrraeth wedi'i thargedu o 68 y cant.²⁵ Roedd y gwariant terfynol ar draws

²⁵ Er mwyn annog cyfraniad a buddsoddiad gan bartneriaid eraill (e.e. llywodraeth genedlaethol, llywodraeth ranbarthol a llywodraeth leol, y sector preifat, rhanddeiliaid eraill) mae rhaglenni cyllido Ewropeaidd yn

y rhaglen gyfan, sef 2016-2023, yn is na'r ffigurau a gymeradwywyd. Roedd yr hawliad terfynol a gyflwynwyd i WEFO (ym mis Mai 2023) yn nodi cyfanswm gwariant terfynol o £3.31 miliwn, sy'n cyfateb i 47.9 y cant o gyfanswm y costau cymeradwy. Roedd gwariant ESF yn £2.25 miliwn a oedd yn sylweddol is na'r ffigur a gymeradwywyd a darparodd gyfradd ymyrraeth derfynol o 68.03 y cant. Yn GCC, roedd y gwariant o gostau ESF yn llai na hanner y cyllid a gymeradwywyd gan arwain at ddadneilltuo cyllid fel rhan o raglen PfS. Mae Tabl 3.1 yn crynhoi'r data hyn. Effeithiwyd ar y rhaglen gan nifer o ffactorau a gyfrannodd at wariant a deilliannau is; caiff y rhain eu trafod ym mhennod 4.

3.12 Cyfanswm y gwariant yn DC dros y cyfnod 2016-2023 oedd £725,000.

Tabl 3.1: Costau a gwariant terfynol a gymeradwywyd gan Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, 2016-2023

Costau Gros (GBP)	<i>Ffigurau cymeradwy (GBP)</i>	<i>Gwariant terfynol (GBP)</i>
Cyfanswm costau ESF Cymwys	4,695,088.06	2,252,806.59
Incwm: arian cyfatebol (Llywodraeth Cymru)	2,206,806.03	1,058,874.09
Gwariant Cymwys Gros	6,901,894.09	3,311,680.68
Cyfradd Ymyrraeth (%)	68.03%	68.03%

Darparu'r Hyfforddiant

3.13 Cafodd y prentisiaethau eu caffael o dan gytundeb fframwaith dysgu seiliedig ar waith a oedd yn bodoli eisoes, gydag ymarferion caffael ar wahân i wahodd darparwr i dendro am y cymwysterau Trawsnewid i Waith Chwarae a'r L2 APP. Roedd y 12 darparwr hyfforddiant a gontractiwyd i arwain y gwaith o gyflwyno cymwysterau o dan y rhaglen PfS fel a ganlyn:²⁶

- **Ar gyfer prentisiaethau**, sy'n cynnwys y dyfarniad Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (CCPLD) a'r dyfarniad diploma Gwaith Chwarae drwy fframwaith Prentisiaeth:

cyfrannu canran benodol o gostau cyffredinol prosiectau neu raglen. Cyfeirir at y ganran hon fel y gyfradd ymyrraeth.

²⁶ Ffynhonnell: [Darparwyr Cynnydd ar gyfer Llwyddiant | Porth Sgiliau Busnes Cymru \(llyw.cymru\)](#)

- **Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd:**
 - ACT Ltd
 - Cwmni Hyfforddiant Cambrian
 - Coleg Cambria
 - Coleg Gŵyr Abertawe
 - Grŵp Llandrillo Menai
 - ITEC Training Solutions Ltd
 - Coleg Castell-nedd Port Talbot
 - Coleg Sir Benfro
 - Educ8 Training
- **Yn Nwyrain Cymru:**
 - ACT Ltd
 - Cwmni Hyfforddiant Cambrian
 - Coleg Cambria WBL
 - Grŵp Llandrillo Menai
 - Coleg Castell-nedd Port Talbot
 - Coleg Sir Benfro
 - Educ8 Training
- **Ar gyfer cymwysterau Llwybr at Chwarae, comisiynwyd y darparwyr hyfforddiant canlynol i ddarparu:**
 - Dyfarniad Trawsnewid i Waith Chwarae ar draws gwahanol ardaloedd yn GCC a DC:
 - ACT Ltd
 - Aspiration Training
 - Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ar draws gwahanol ardaloedd yn GCC a DC.
 - L2 APP:
 - Addysg Oedolion Cymru yn GCC a rhan o DC.

- Dyfarnwyd y contract ar gyfer rhan o DC i ail gyflenwr, ond trosglwyddodd y contract yn ôl oherwydd ei anallu i fodloni'r meini prawf (gweler 4.11).

4. Canfyddiadau: Y Ffordd y Cyflawnwyd y Rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant

4.1 Mae'r adran hon yn cynnwys data ar gyfranogwyr PfS a barn cyfranogwyr, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant ynghylch y cymwysterau a ddarparwyd. Wrth gyflwyno'r canfyddiadau hyn rydym yn gwahaniaethu rhwng tystiolaeth a gasglwyd gan ddysgwyr a gwblhaodd ddyfarniad Trawsnewid i Waith Chwarae o dan y Llwybr at Chwarae a'r rhai a ddilynodd y llwybr prentisiaeth. Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn y bennod hon yn ymwneud â GCC a DC. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae tystiolaeth yn cael ei dyfynnu neu ei phriodoli i gyfranogwr unigol penodol, nodir eu rhanbarth (GCC neu DC) yn ogystal â'r cymhwyster a ddilynwyd.

Cymwysterau o dan PfS

- 4.2 O dan elfen Llwybr at Chwarae y rhaglen, ariannodd PfS ddyfarniad Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae i alluogi ymarferwyr i ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau a rhoi'r cymhwyster perthnasol iddynt fodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol erbyn mis Medi 2022. Mae cyrff dyfarnu yn pennu nifer tybiannol o oriau yr amcangyfrifir y bydd eu hangen er mwyn i ddysgwyr gyflawni'r lefel o gyrhaeddiad sy'n angenrheidiol i gwblhau'r dyfarniad. Amcangyfrifir y bydd angen 36 o oriau dysgu dan arweiniad o blith cyfanswm o 80 awr er mwyn cwblhau'r dyfarniad.
- 4.3 Roedd dau gymhwyster ar gael drwy fframwaith Prentisiaeth: Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (CCPLD) ar Lefelau 2 a 3 a Gwaith Chwarae ar Lefelau 2 a 3. Roedd prentisiaethau ar gael yn rownd gyntaf PfS i unigolion a oedd yn gweithio ar sail amser llawn ond yn y rownd hon o PfS roedd y prentisiaethau ar gyfer ymarferwyr a oedd yn gweithio llai nag 16 awr yr wythnos yn unig. Yr amcan oedd archwilio'r potensial ar gyfer mwy o hyblygrwydd yn y gofyniad 16 awr i ddarparu prentisiaethau a phrofi a ellir cael mwy o hyblygrwydd o fewn y sector o ran nifer yr oriau a weithiwyd tra roedd pobl yn ymgymryd â'r cymhwyster.

Data ar gyfranogwyr Cynnydd ar gyfer Llwyddiant

- 4.4 Y nifer targed o gyfranogwyr i gael eu cefnogi gan PfS yn GCC oedd 2,849 ar gyfer y cyfnod gweithredu cyfan, sef 2016-2023.²⁷ Ni osodwyd targed ar gyfer DC. Cymeradwywyd proffil cyflawni diwygiedig yn 2018 ar gyfer ail gyfnod y rhaglen PfS, sef 2019-2023, gyda tharged o 2,247 o gyfranogwyr ar gyfer GCC a 1,564 ar gyfer DC.
- 4.5 Ymgysylltodd nifer sylweddol is o gyfranogwyr â PfS o gymharu â'r targedau a osodwyd ar gyfer y rhaglen yn GCC a DC fel ei gilydd. Mae hynny'n wir o ystyried y cyfnod cyfan, sef 2016-2023, ac yn benodol yr ail gyfnod, sef 2019-2023. Mae'r data isod yn seiliedig ar wybodaeth am gyfranogwyr a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac ar ffurflenni hawlio terfynol o fis Mai 2023. Ceir rhagor o fanylion yn Nhabl 4.1.
- **GCC:** Cymerodd cyfanswm o 1,063 o gyfranogwyr â'n yn PfS rhwng 2016 a 2023 (gan gyflawni 37 y cant o'r targed o 2,849).²⁸
 - Cymerodd 507 o gyfranogwyr o GCC ran yng nghyfnod cyntaf y rhaglen o 2016-2019.
 - Gan ganolbwyntio ar yr ail gyfnod yn GCC yn unig, cymerodd 556 o gyfranogwyr ran yn PfS yn 2019-2023 (25 y cant o'r targed o 2,247 ar gyfer y cyfnod)
 - **DC:** Gan ganolbwyntio ar yr *ail* gyfnod yn DC rhwng 2019-2023, cymerodd 359 o gyfranogwyr ran yn PfS (23 y cant o'r targed ar gyfer y cyfnod).
- 4.6 Mae adrannau diweddarach o'r adroddiad hwn yn amlygu cyflawniadau PfS o ran cyfrannu at wella cymwysterau ac uwchsgilio'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae. Fodd bynnag, methodd y rhaglen PfS â chyflawni ei thargedau erbyn diwedd y cyfnod 2019-2023, gan barhau â phatrwm tebyg i'r hyn a welwyd yn ystod cyfnod cyntaf PfS o 2016-2019.
- 4.7 Wrth edrych ar y rhesymau posibl dros beidio â chyrraedd y targedau, mae'n ddefnyddiol myfyrio'n fyr ar y profiadau yn ystod cyfnod cyntaf y rhaglen rhwng 2016-2019. Daeth y gwerthusiad o'r cyfnod cyntaf hwnnw i'r casgliad fod y rhaglen gychwynnol wedi cael ei heffeithio yn sgil codi'r cyfyngiadau oedran ar gyfer y rhaglen brentisiaeth ar yr adeg yr oedd y rhaglen PfS yn cael ei chynllunio a'i lansio,

²⁷ Ffynhonnell: Cynllun Busnes Ailwerthuso Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, Hydref 2018. Llywodraeth Cymru

²⁸ Ffynhonnell: Hawliad terfynol Llywodraeth Cymru i WEFO, rhannwyd Mai 2023

gan olygu nad oedd y rhaglen wreiddiol yn llenwi bwch yn y ddarpariaeth a ariennir mwyach. Nodwyd y meini prawf cymhwysra ar gyfer PfS hefyd fel ffactor a oedd yn rhwystro'r gallu i recriwtio'r gweithlu i ymgysylltu â'r rhaglen: er mwyn bod yn gymwys i elwa ar hyfforddiant am ddim o dan gyfnod cyntaf PfS rhwng 2016 a 2019, roedd yn ofynnol i weithwyr fod yn 25 oed a throsodd a chael eu cyflogi am 16 awr. Roedd hon yn her arbennig i ymarferwyr mewn clybiau y tu allan i oriau ysgol, lleoliadau chwarae a lleoliadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sydd fel arfer yn gweithredu rhwng 10 a 12 awr yr wythnos.

Roedd consensws ymhlith darparwyr hyfforddiant bod y meini prawf cymhwysra yn gyfyngol, yn ei gwneud yn hynod o heriol cyrraedd y targedau a osodwyd ac yn [atal] llawer o weithwyr (rhan-amser) rhag cael mynediad at y cymwysterau a ariennir. Parodd hyn i lawer o randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr hyfforddiant, gwestiynu a oedd yr amcangyfrif o nifer y cyfranogwyr cymwys yn gadarn ac yn realistig. (Cyfieithiad o ddyfyniad o Werthusiad PfS 2016-2019, heb ei gyhoeddi)

- 4.8 Roedd y rhaglen a ailbroffiliwyd yn cydnabod ac yn ceisio mynd i'r afael â'r cyfyngiadau hyn drwy sicrhau bod darpariaeth ar gael i ymarferwyr a oedd yn gweithio llai nag 16 awr yr wythnos, nad oeddent felly'n gallu manteisio ar y Rhaglen Brentisiaeth brif ffrwd.
- 4.9 Fodd bynnag, cyflwynodd llu o ffactorau eraill heriau o ran cyrraedd y targedau yn ail gyfnod y rhaglen PfS. Yr her gyntaf a'r un fwyaf arwyddocaol oedd effaith y pandemig COVID-19. Gyda lleoliadau gofal plant a chwarae ar gau, cafodd y rhaglen ei gohirio am gyfnod estynedig. Achosodd hyn oedi sylweddol i amserlenni caffael Llywodraeth Cymru, gan olygu nad oedd contractau ar gyfer darparwyr hyfforddiant ar waith tan lawer yn hwyrach nag a gynlluniwyd yn wreiddiol. Roedd effaith y pandemig yn golygu, hyd yn oed pan oedd lleoliadau'n dechrau ailagor yn raddol, nad oedd uwchsgilio a datblygu'r gweithlu bob amser yn flaenoriaeth uniongyrchol i berchnogion a rheolwyr lleoliadau wrth iddynt addasu i amodau gwaith newydd.
- 4.10 Yn uniongyrchol gysylltiedig â'r pwynt uchod, dechreuodd y dyfarniadau Trawsnewid i Waith Chwarae, a oedd yn cyfrif am y mwyafrif o'r cymwysterau a ddilynwyd gan ddysgwyr PfS, yn llawer hwyrach nag a gynlluniwyd yn wreiddiol ac felly cwtogwyd y cyfnod ar gyfer cyflawni'r cymwysterau. Roedd yr amserlen gyflawni fyrrach yn golygu bod llai o ddysgwyr yn cael eu recriwtio a'u cefnogi gan ddarparwyr hyfforddiant.

- 4.11 Nid oedd y cyllid ar gyfer y dyfarniadau L2 APP a P3 ar gael tan yn hwyr yn amserlen y rhaglen: ni ddyfarnwyd contractau tan fis Ebrill 2022 ac felly roedd hyn yn cyfyngu ar yr amser a oedd ar gael i hyrwyddo, recriwtio a chyflwyno'r ddarpariaeth. At hynny, roedd 2022 yn gyfnod prysur i weithwyr chwarae, gyda llawer iawn ohonynt yn brysur yn cefnogi darpariaeth a ariannwyd fel rhan o fentrau Gaeaf Llawn Lles a Haf o Hwyl.²⁹ O ganlyniad, nododd cynrychiolwyr y sector fod hyn yn effeithio ar argaeledd ymarferwyr i ddilyn hyfforddiant.
- 4.12 Ymhlith y ffactorau eraill yr adroddwyd eu bod wedi effeithio ar recriwtio cyfranogwyr drwy PfS roedd y canlynol:
- llai o alw am y llwybr prentisiaeth rhan-amser: awgrymwyd bod dechrau ar gwrs prentisiaeth a allai gymryd sawl blwyddyn i'w gwblhau yn llai deniadol i ymarferwyr nag a ragwelwyd;
 - y ffaith na chyflawnwyd y Llwybr Camu i Reoli a'r Llwybr at y Gymraeg;
 - y ffaith i ddarparwr hyfforddiant a gcontractiwyd i ddechrau i gyflwyno L2 APP yn ardal DC dynnu'n ôl oherwydd iddo fethu â bodloni'r meini prawf cymhwystra. Aethpwyd i'r afael â'r broses o ddyrannu dysgwyr yn ddiweddarach, y tu allan i'r rhaglen PfS.
 - roedd rhai darparwyr wedi nodi galw am y cymwysterau a oedd ar gael ymhlith gwirfoddolwyr mewn lleoliadau chwarae. Roedd rheolau ESF yn golygu nad oedd gwirfoddolwyr, sy'n garfan allweddol o'r sector chwarae, yn gallu cymryd rhan yn PfS.
- 4.13 Ceir rhagor o fanylion am y cyfranogwyr yn ystod cyfnod 2019-2023 yn unig yn Nhabl 4.1. Cymerodd 507 o gyfranogwyr ychwanegol ran mewn prentisiaethau yn y cyfnod 2016-2019.

²⁹ Nod y mentrau Gaeaf Llawn Lles a Haf o Hwyl a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru oedd cefnogi plant a phobl ifanc i adfer o effeithiau negyddol y pandemig COVID-19 drwy ddarparu cyfleoedd chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol.

Tabl 4.1: Cyfranogwyr fesul llwybr ar gyfer Cynnydd ar gyfer Llwyddiant 2019-2023

	Targed GCC*	Cyfranogwyr GCC a ddechreuodd ar PfS**	Targed DC	Cyfranogwyr DC a ddechreuodd ar PfS**
SQA Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P3) Lefel 2 neu 3	48	0 ³⁰	29	0
Trawsnewid i Waith Chwarae o'r Blynyddoedd Cynnar / L2 APP	1,674	477	1,026	285
Rheoli Cynllun Chwarae yn ystod y Gwyliau	186	0 ³¹	114	0
Llwybr at y Gymraeg	186	0 ³¹	114	0
Camu i Reoli mewn Gofal Plant	149	0 ³¹	91	0
Prentisiaeth beilot rhan-amser CCPLD / PfS	310	79	190**	74
Cyfanswm y Cyfranogwyr	2,553	556	1,564	359
Cyfanswm y Cyfranogwyr (llai 12%) ³²	2,247		-	

* Ffynhonnell: Taenlen 'Costau cyflawni posibl ar gyfer estyniad o'r PfS' a rannwyd gan Lywodraeth Cymru

** Ffynhonnell: Data monitro a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

4.14 Mae'r adrannau canlynol yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau cyfweiliadau â 28 o ymarferwyr gofal plant a chwarae a gwblhaodd gymhwyster o dan y dyfarniad Trawsnewid i Waith Chwarae neu'r llwybr prentisiaeth. Cynhaliwyd y cyfweiliadau hyn dros y ffôn yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2023. Mae'r adran hon hefyd yn seiliedig ar farn sampl o 18 o berchnogion neu reolwyr lleoliadau, a gafodd eu cyfweld yn ystod mis Mawrth 2023.

³⁰ Noder: Dechreuodd pedwar cyfranogwr astudio ar gyfer cymhwyster o dan y llwybr hwn ond canfuwyd nad oeddent yn gymwys ar gyfer PfS ac ni chawsant eu hariannu wedyn o dan y rhaglen hon.

³¹ Heb ei ddarparu fel rhan o'r rhaglen. Gweler paragraffau 3.5 -3.6.

³² Lleihawyd y targed 12 y cant ar gyfer GCC i ganiatáu ar gyfer cyfranogwyr a allai fod yn dilyn mwy nag un cwrs, gan mai dim ond unwaith y gellir cyfrif dysgwr ar gyfer cyllid ESF. Ni chymhwyswyd y 12% i darged DC gan na chafodd ei ariannu gan ESF.

Sut y clywodd y cyfranogwyr am y cyfle i gwblhau'r cymhwyster

4.15 Hysbyswyd mwyafrif y cyfranogwyr a gyfwelwyd (ar draws yr elfennau prentisiaeth a Llwybr at Chwarae) am y cyfle i astudio ar gyfer y dyfarniad gan eu rheolwr, a argymhellodd y dylent fanteisio ar y cyfle. Mewn rhai achosion, dywedodd dysgwyr a oedd hefyd yn rheolwyr lleoliadau fod darparwyr hyfforddiant a oedd yn hyrwyddo'r cyfleoedd a oedd ar gael wedi cysylltu'n uniongyrchol â nhw. Yn ogystal â hynny, nododd rhai cyfranogwyr fod cydweithwyr yn eu lleoliad eisoes wedi cwblhau'r cymhwyster ac wedi clywed am y dyfarniadau ar lafar.

“Fy rheolwr llinell wnaeth ei awgrymu. Roeddwn i mewn clwb ar ôl ysgol.

Roeddwn i wedi gweithio yno ers cwpl o fisoedd, a dywedodd fod cymhwyster ar lefel dau a fyddai'n addas i mi ... ac mae'n edrych yn llawer gwell ar CV a gallaf fod fel rheolwr wrth gefn, ac rwy'n cael fy ystyried yn gymwys ond o'r blaen doedd gen i ddim cymwysterau.” – Cyfranogwr, Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae, GCC.

4.16 Dywedodd darparwyr hyfforddiant eu bod yn cysylltu â lleoliadau i hyrwyddo'r cyfleoedd. Mewn llawer o achosion, roedd darparwyr hyfforddiant yn gallu cysylltu â lleoliadau yr oeddent wedi gweithio â nhw o'r blaen ac felly roedd hyn yn barhad o bartneriaethau presennol. Wrth hyrwyddo'r cymwysterau, fodd bynnag, roedd darparwyr hyfforddiant wedi'u cyfyngu i ardaloedd daearyddol lle roeddent wedi ennill contractau. Dywedodd darparwyr hyfforddiant hefyd fod lleoliadau wedi cysylltu â nhw mewn rhai achosion i holi am y cymwysterau. Canfu'r gwerthusiad o gyfnod cyntaf PfS fod rhai darparwyr wedi defnyddio 'ymgyrchoedd marchnata llawdrwm' i recriwtio dysgwyr i ddilyn cymwysterau nad oedd eu hangen arnynt mewn rhai achosion, neu gymwysterau nad oeddent yn rhai mwyaf priodol. Er bod darparwyr hyfforddiant wedi mynegi rhywfaint o rwystredigaeth ynghylch yr heriau o ran recriwtio cyfranogwyr ar y raddfa yr oeddent wedi'i rhagweld, nid oedd unrhyw dystiolaeth o'r math hwn o recriwtio llawdrwm yn ystod cyfnod y rhaglen PfS yn 2019-2023.

Rhesymau dros gwblhau'r cymhwyster.

4.17 Eglurodd y cyfranogwyr eu bod yn cael eu hannog – ac, mewn rhai achosion, eu gorchymyn – i gwblhau'r dyfarniad Trawsnewid i Waith Chwarae mewn ymateb i ofynion newydd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn lleoliad cofrestredig sy'n gofalu am blant hyd at 12 oed i gael cymhwyster

chwarae a gofal plant.³³ Nodwyd bod angen staff cymwys ar eu lleoliadau er mwyn ymestyn eu horiau neu redeg cynlluniau chwarae.

4.18 Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd eu bod wedi cael gwybod ei bod yn ofynnol i bob ymarferydd gwblhau'r cymhwyster.

“Yn seiliedig ar y ffaith ein bod wedi cael gwybod ei fod yn orfodol, roeddwn i'n meddwl pe bawn i'n ei wneud e nawr y byddai allan o'r ffordd.” (Cyfranogwr Llwybr at Chwarae – Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae, DC)

“Roeddwn i'n gweithio gyda dysgwyr hŷn – rhwng pump ac 11 oed, felly dyna pam y gofynnwyd i mi wneud y cwrs, ynghyd â 2 arall o'r feithrinfa.” (Cyfranogwr Llwybr at Chwarae – Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae, DC)

4.19 Nododd y rhan fwyaf o ddysgwyr a ddilynodd y llwybr prentisiaeth hefyd mai eu rheolwr llinell a oedd wedi'i argymhell. Ymhlith y cymhellion eraill a grybwyllwyd gan y rhai a gyfwelwyd roedd:

- diddordeb mewn dysgu mwy am waith chwarae;
- gwella eu CV a gwella cyfleoedd dilyniant gyrfa;
- meddu ar y gallu i wasanaethu fel rheolwr wrth gefn lle bo angen;

“Mae bod yn athro yn dra gwahanol i fod mewn lleoliad chwarae. Felly, roeddwn i eisiau dysgu mwy am hynny ac yna dim ond helpu gyda dilyniant gyrfa posibl yn nes ymlaen os byddaf yn penderfynu peidio â bod yn athro, yna mae'n rhoi ychydig mwy o opsiynau i mi. Rwy'n meddwl ei fod yn ddefnyddiol i [y lleoliad] hefyd, oherwydd os nad yw rhywun yn gallu dod i mewn yna o leiaf mae gen i'r cymhwyster hefyd. Ac roedd gen i diddordeb mewn chwarae.”

Cyfranogwr – Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae, GCC.

Profiadau o ddilyn y cymwysterau a gefnogir drwy'r rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant

4.20 Mae'r adran hon yn cyflwyno barn cyfranogwyr, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant ar wahanol agweddau ar y cymwysterau a ddarparwyd drwy'r rhaglen PfS. Yn benodol, mae'n crynhoi tystiolaeth a chanfyddiadau sy'n ymwneud â:

- Strwythur y cymwysterau a gwblhawyd a'r llwythi gwaith cysylltiedig;
- Cynnwys y cwrs;

³³ [Cylchlythyr WGC 006/2017 \(llyw.cymru\)](#)

- Y gefnogaeth a ddarperir i gyfranogwyr gan ddarparwyr hyfforddiant, tiwtoriaid a chyflogwyr.

4.21 Lle y bo'n briodol, rydym yn gwahaniaethu rhwng canfyddiadau mewn perthynas â'r Llwybr at Chwarae ac elfennau prentisiaeth PfS.

Barn y cyfranogwyr ynghylch strwythur y cwrs a'r llwyth gwaith o dan yr elfen Llwybr at Chwarae

- 4.22 Roedd y dysgwyr a gyfwelwyd ac a oedd wedi cwblhau'r dyfarniadau Trawsnewid i Waith Chwarae yn gefnogol ar y cyfan i strwythur cyffredinol y cymwysterau, ac yn cydnabod pwysigrwydd cyfarwyddyd dan arweiniad i ddarparu dealltwriaeth o egwyddorion gwaith chwarae a'r damcaniaethau sy'n sail i ymarfer effeithiol.
- 4.23 Fodd bynnag, amlygodd y cyfweiliadau farn wrthgyferbyniol ar y llwyth gwaith a oedd yn gysylltiedig â'r cymwysterau. Dywedodd tua hanner y cyfranogwyr a gyfwelwyd eu bod wedi'u synnu gan faint y gwaith dan sylw, gan ddisgrifio'r llwyth gwaith fel un sylweddol a mwy heriol nag yr oeddent wedi'i ddisgwyl (gweler astudiaeth achos 4, 'Diana' yn adran 6). Dywedodd sawl cyfranogwr a gyfwelwyd ei fod yn treulio cryn dipyn o'i amser ar benwythnosau a gyda'r nos yn cwblhau tasgau. Nododd nifer o'r rhai a gyfwelwyd a oedd hefyd â rolau rheoli yn eu lleoliadau fod rhai aelodau o staff yn cael trafferth, yn enwedig y rhai â phrofiad llai diweddar o ddysgu ffurfiol.
- 4.24 Roedd y sylwadau hyn yn gwrthgyferbynnu â'r farn a fynegwyd gan gyfranogwyr eraill, a ddywedodd fod y llwyth gwaith yn rhesymol. Roedd yr unigolion hyn yn tueddu i fod mewn rolau uwch yn eu lleoliadau ac yn fwy tebygol o fod wedi cwblhau cymwysterau eraill yn fwy diweddar. Nododd eraill a oedd yn gweithio'n rhan-amser eu bod yn gallu rheoli'r llwyth gwaith a chwblhau aseiniadau yn ystod eu diwrnodau i ffwrdd. Nododd rhai o'r rhai a oedd yn gweithio'n rhan-amser y byddent wedi'i chael yn fwy heriol pe bai angen iddynt gydbwyso gofynion y cwrs ochr yn ochr ag oriau gwaith amser llawn.

Barn y cyfranogwyr ynghylch strwythur a llwyth gwaith y brentisiaeth beilot

- 4.25 Roedd barn y cyfranogwyr am hyd y cyrsiau a ddarparwyd o dan y llwybr prentisiaeth yn amrywio. Awgrymodd rhai fod angen cwrs hirach a mwy o amser i gwblhau gwaith cwrs, tra bod eraill yn teimlo bod eu cwrs yn rhy hir. Nododd y rhan

fwyaf o'r cyfranogwyr fod tiwtoriaid y cyrsiau wedi mabwysiadu dull hyblyg, gan ganiatáu amser ychwanegol i orffen aseiniadau yn ôl yr angen.

"[Roeddwn i'n] gallu siarad ag arweinwyr y cwrs os oeddwn i byth yn teimlo dan ormod o straen. Roedden nhw'n barod i helpu ac yn tawelu fy meddwl. Roedden nhw weithiau'n cynnig estyniadau, ac roedd hynny'n beth da. Fe gafodd ambell un estyniad. O ran y cwrs, dylai fod yn hirach. Does dim digon o amser i gwblhau'r gwaith cwrs. Roeddwn i'n teimlo dan straen yn ceisio dod i ben ag ef." – Cyfranogwr, Lefel 2 CCPLD, GCC.

- 4.26 Mynegodd rhai cyfranogwyr anfodlonrwydd â hyd y cymhwyster CCPLD neu Waith Chwarae, gan nodi eu bod yn gweld y cwrs yn rhy hir ac y dylid ei grynhoi neu ei symleiddio. Fodd bynnag, roedd llawer yn cydnabod y gallai'r pandemig COVID-19 a chau lleoliadau yn sgil hynny fod wedi cyfrannu at ymestyn hyd y cyrsiau.

"Roedd yn dda, ond fe aeth ymlaen yn rhy hir - oherwydd COVID, rwy'n credu ei bod wedi cymryd dwy flynedd a hanner neu efallai bron i dair i mi, ac roedd yn ymddangos yn ddiidiwedd. Pan oeddwn i'n meddwl ei fod ar fin dod i ben, roedd mwy o waith i'w wneud." - Cyfranogwr, Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae, GCC.

- 4.27 Er bod y llwybr prentisiaeth wedi'i dargedu at unigolion a oedd yn gweithio llai nag 16 awr, roedd rhai o'r cyfranogwyr a gyfwelwyd hefyd yn cael eu cyflogi mewn mannau eraill, gan weithio oriau amser llawn ar draws rolau gwahanol. Cyfeiriodd y cyfranogwyr hyn at yr heriau'n gysylltiedig â gweithio oriau amser llawn ac ymgymryd â'r cymhwyster, a oedd yn achosi problemau wrth gydbwysu amrywiol ymrwymadau.

"Roedd braidd wallgof, rhwng coleg, gwaith a phopeth. Mae'n rhaid i mi redeg o gwmpas a cheisio cael cydbwysedd rhwng popeth ac mae'n anodd." – Cyfranogwr, Lefel 2 CCPLD, GCC.

- 4.28 Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr eu bod yn gwneud gwaith cwrs ar gyfer y cymhwyster CCPLD neu'r cymhwyster Gwaith Chwarae y tu allan i'w horiau gwaith arferol, ac yn eu hamser eu hunain. Nid yw hyn yn gyson â'r disgwyliad bod prentisiaeth yn rhaglen dysgu seiliedig ar waith lle y rhoddir amser i astudio.

Barn cyflogwyr ynghylch y strwythur a'r llwyth gwaith

- 4.29 Adleisiodd cyflogwyr y farn a fynegwyd gan nifer o gyn-ddysgwyr am yr heriau o gwblhau cyrsiau o dan elfennau prentisiaeth a thrawsnewid i waith chwarae PfS. Cyfeiriodd perchnogion lleoliadau a chyflogwyr at yr heriau a wynebwyd gan eu staff. Esboniodd un cyflogwr fod ei staff chwarae wedi'u contractio i weithio 15 awr yr wythnos, ond nad oedd digon o amser i wneud y gwaith cwrs o fewn yr oriau a ddyrannwyd iddynt. Dywedodd y byddai awr ychwanegol yr wythnos yn rhoi digon o amser i'r staff gwblhau eu gwaith yn ystod eu horiau gwaith. Dywedodd cyflogwyr fod staff yn cael trafferth cydbwysu gwaith a'u cyfrifoldebau yn y gwaith.
- 4.30 Soniodd cyflogwyr am anawsterau wrth ryddhau dysgwyr PfS o'u gwaith i dreulio amser ar waith cwrs, oherwydd y pwysau ar dimau staffio.
- “Yr unig broblem i'r staff oedd nad oedden nhw'n gallu cydbwysu bywyd a gwaith yn dda iawn tra roeddwn yn dilyn y cwrs. Roedden ni'n rhy brysur yn y feithrinfa i ryddhau staff, felly roedd rhaid iddyn nhw wneud y gwaith yn eu hamser eu hunain ar ôl gwaith, a'r peth olaf maen nhw eisiau ei wneud yw agor eu gliniaduron ar ôl diwrnod hir.” - Cyflogwr, Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae, GCC.
- 4.31 Nododd y cyflogwyr fod cyflwyno agweddau ar y cyrsiau ar-lein drwy Zoom a Teams yn gweithio'n effeithiol i staff. Aethant ymlaen i egluro bod hon yn agwedd gadarnhaol ar ddilyn y cwrs, gan nad oedd angen i staff deithio i unrhyw le, gan wella sut yr oedd staff yn rheoli eu hamser y tu allan i'r gwaith.

Barn y cyfranogwyr ynghylch cynnwys y cwrs o dan yr elfen Llwybr at Chwarae

- 4.32 Mynegwyd amrywiaeth o farnau gan y rhai a gyfwelwyd mewn perthynas â chynnwys y cymhwyster Trawsnewid i Waith Chwarae. I nifer o gyfranogwyr, roedd cynnwys y cwrs yn atgyfnerthu gwybodaeth ac ymarfer presennol. Roedd y cyfranogwyr yn gallu defnyddio eu profiad blaenorol i gwblhau aseiniadau a disgrifiodd rhai y cymhwyster fel 'diweddariad defnyddiol' i'w gwybodaeth.
- “Roeddwn i'n ei weld fel rhan o DPP – bron fel diweddariad i mi ar fy ymarfer. Mae dysgu pethau newydd a chael y wybodaeth ddiweddaraf wastad yn beth da.” – Cyfranogwr, Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae, GCC.
- 4.33 I eraill, rhoddodd cynnwys y cwrs wybodaeth newydd iddynt. Rhoddodd arweiniad ar sut i gynllunio gweithgaredd chwarae, gwybodaeth newydd am ddeddfwriaeth ac

ymarfer cyfredol. Nododd y cyfranogwyr eu bod wedi rhannu'r wybodaeth hon wedyn â chydweithwyr eraill yn eu lleoliad nad oeddent wedi cwblhau'r cymhwyster.

4.34 Cyfeiriodd sawl cyfranogwr at faterion yn ymwneud â chynnwys y cymhwyster. I'r unigolion hyn, prif wendidau'r cwrs oedd:

- Y ffaith bod cynnwys y cwrs yn ailadroddus – nodwyd bod nifer y sesiynau arsylwi sydd wedi'u cynnwys yn y cymhwyster yn ddiangen o ailadroddus:

“Roedd llawer iawn o sesiynau arsylwi – a oedd yn dasg anferth ynddynt eu hunain o ran ysgrifennu'r amdanynt. Ar ôl i chi gyrraedd lefel benodol – a'ch bod chi'n ddigon cymwys i ymgymryd â chymhwyster Lefel 3, rydych eisoes wedi gorfod gwneud llawer o arsylwi.” – Cyfranogwr, Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae, DC.

- Archwiliwyd y syniadau a'r testunau a gyflwynwyd mewn ffordd arwynebol heb ddigon o ddyfnder a heb ddilyniant dysgu clir wedi'i ymgorffori yn y cwrs. Nododd un cyfranogwr a oedd hefyd yn ddirprwy reolwr yn ei leoliad:

“Nid oedd unrhyw archwilio manwl ac, o gymharu â chydweithwyr a oedd wedi gwneud y cwrs Lefel 3 llawn, ni wnaeth y staff elwa rhyw lawer o ran gwybodaeth neu sgiliau... Pe bawn i'n gwybod hynny cyn iddyn nhw ddilyn y cwrs, byddwn wedi eu rhoi ar y cwrs llawn, er ei fod yn hirach.” – Cyfranogwr, Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae, DC.

- Disgrifiwyd cynnwys y cwrs fel digyswllt a di-drefn. Nododd y cyfranogwyr, fel rhan o'r ddarpariaeth ar-lein, eu bod wedi'u rhannu'n ystafelloedd gwahanol ar Zoom. Fodd bynnag, nid oedd y tasgau a osodwyd i grwpiau llai bob amser yn 'cyd-fynd â'r sesiwn flaenorol na'r wybodaeth a ddarparwyd'. O'r herwydd, teimlai nifer o'r rhai a gyfwelwyd na chawsant gymaint allan o'r sesiynau grŵp a *'doedd e ddim yn teimlo fel y defnydd gorau o amser'*.

Barn y cyfranogwyr ar gynnwys y cwrs o dan yr elfen prentisiaethau peilot

4.35 Yn gyffredinol, rhoddodd y cyfranogwyr adborth cadarnhaol am gynnwys y cyrsiau, a'u profiad dysgu. Disgrifiwyd y dull o gyflwyno'r cwrs fel hawdd ei ddeall ac wedi'i strwythuro'n dda, a bod y cwrs yn annog dysgu annibynnol, a gafodd ei groesawu'n frwd gan y cyfranogwyr. Cyflwynwyd llawer o'r cwrs ar MS Teams a chynhaliwyd cyfarfodydd dal i fyny rheolaidd gydag aseswyr, ond gwnaed y rhan fwyaf o'r dysgu'n annibynnol gan ddefnyddio sleidiau a ddarparwyd ac adnoddau a oedd ar gael drwy Moodle (plattform e-ddysgu). Er gwaethaf y pwyslais ar ddysgu annibynnol, nododd y cyfranogwyr fod yr aseswyr bob amser wrth law i ddarparu cymorth yn ôl yr angen.

4.36 Tynnodd yr adborth a ddarparwyd gan un cyfranogwr sylw at yr angen i ddarparwyr hyfforddiant reoli disgwyliadau, yn enwedig o ran cyfathrebu â'r tiwtor. Er bod y tiwtor wedi annog y cyfranogwr i estyn allan pryd bynnag yr oedd angen cymorth, nododd y cyfranogwr y byddai wedi bod yn well ganddo gael cyswllt amlach ag ef. Yn benodol, pan oedd y cyfranogwr eisiau cymorth gyda chwestiwn,

“Maen nhw bob amser yn dweud “cysylltwch pryd bynnag fynnwch chi ” ond pan fyddwch chi yng nghanol cwestiwn dyrys gyda'r nos ac yn anfon WhatsApp dydych chi ddim yn cael ateb am ychydig ddyddiau.” – Cyfranogwr, Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae, GCC.

4.37 Er bod rhai cyfranogwyr yn gweld y cynnwys yn ddefnyddiol ac yn fuddiol, nid oedd hynny'n wir am bawb, fel y dywedodd un cyfranogwr a gafodd broblemau gyda'r enghreifftiau a ddefnyddiwyd yn y cwrs. Nododd fod y senarios yn aml yn ymwneud â chlybiau gwyliau, ac fel rhywun a oedd wedi gweithio mewn clybiau ar ôl ysgol yn unig heb unrhyw brofiad yn y maes hwnnw, roedd yn ei chael hi'n anodd darparu enghreifftiau ychwanegol pan ofynnwyd am hynny wrth gyflwyno gwaith.

Barn cyfranogwyr Llwybr at Chwarae ynghylch y gefnogaeth

4.38 Dywedodd y cyfranogwyr a gyfwelwyd a oedd wedi cwblhau dyfarniad Trawsnewid i Waith Chwarae eu bod wedi cael cymorth ac anogaeth gan eu cyflogwyr neu reolwyr i gwblhau'r cymhwyster. Gwnaeth y rhai a gyfwelwyd sylwadau ar y gefnogaeth a ddarparwyd gan diwtoriaid ac aseswyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, mynegodd y cyfranogwyr foddhad gyda'r cymorth gan y darparwr hyfforddiant a'r hyblygrwydd a ddangoswyd gan gyflogwyr (gweler astudiaeth achos 3, 'Emma' yn adran 6). Fodd bynnag, teimlai'r lleiafrif o'r rhai a gyfwelwyd nad oedd ansawdd y cymorth gan eu darparwr hyfforddiant yn bodloni eu disgwyliadau.

“Roedd yr asesydd yn araf yn rhoi adborth, a oedd yn fy nigelonni ar adegau.” – Cyfranogwr, Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae, DC.

4.39 Tynnodd eraill sylw at anghysondebau yn y canllawiau ac yn yr adborth a ddarparwyd, yn dibynnu ar ba asesydd oedd yn eu cefnogi. Mewn un enghraifft esboniodd y cyfranogwr fod ei waith wedi cael ei anfon yn ôl droeon, gydag adborth a oedd yn awgrymu bod angen ychwanegu rhagor o wybodaeth. Roedd yr unigolyn hwn yn gwrthgyferbynnu hyn â phrofiad cydweithiwr o'r un aseiniad (cydweithiwr o'r un lleoliad).

“Fe wnaeth fy nirprwy gyflwyniadau ac aseiniadau mwy sylfaenol gyda llai o fanylion, ac ni chraffwyd ar y rheini hanner mor fanwl ag y gwnaed ar fy rhai i. Felly, yn ein profiad ni, roedd gwahanol aseswyr yn anoddach eu plesio – roedd anghysondeb.” – Cyfranogwr, Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae, GCC.

- 4.40 Mewn nifer fach o achosion, nododd y cyfranogwyr ag anghenion dysgu ychwanegol fod cyflwyno'r cwrs ar-lein yn her iddynt. Fel yr eglurodd un cyfranogwr a esboniodd fod ganddo ddyspracsia,

“Byddai'r cwrs wedi bod yn well mewn bywyd go iawn. Rwy'n cael trafferth i ddeall gwybodaeth a chyfarwyddiadau...byddai cwrs wyneb yn wyneb wedi bod yn fwy defnyddiol, a byddwn wedi teimlo fy mod i'n cael cefnogaeth well.” – Cyfranogwr, Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae, GCC.

Barn y cyfranogwyr a gymerodd ran yn y brentisiaeth beilot ynghylch y cymorth

- 4.41 Roedd adborth a gasglwyd gan gyfranogwyr yn dangos bod y mwyafrif o gyflogwyr a thiwtoriaid yn gefnogol drwy gydol y cwrs. Dywedodd y cyfranogwr fod eu cyflogwyr yn ystyriol o'u hymrwymyiadau astudio, gan gynnig cyfle iddynt weithio ar aseiniadau yn ystod unrhyw gyfnodau tawel, lle bo modd. Disgrifiwyd y tiwtoriaid at ei gilydd fel rhai hawdd siarad â nhw, gan roi adborth amserol ar aseiniadau. Fodd bynnag, roedd rhai eithriadau a chafwyd adroddiadau am oedi wrth ateb e-byst neu farcio gwaith.
- 4.42 Soniodd rhai cyfranogwyr am anghysondebau a diffygion yn eu profiad dysgu, gan adleisio sylwadau gan ddysgwyr a gwblhaodd ddyfarniad Trawsnewid i Waith Chwarae. Roedd y rhain yn cynnwys dim digon o ymweliadau gan y tiwtor, gwahaniaethau mewn arddulliau marcio o gymharu â'u cymheiriaid, a gorfod ail-wneud gwaith ysgrifenedig sawl gwaith.

“Roedd un o fy ffrindiau hefyd yn gwneud yr un cwrs ond gydag asesydd gwahanol, a doedd fy ffrind ddim yn gwneud hanner cymaint o waith ag y gwnes i.” – Cyfranogwr, Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae, GCC.

Barn cyflogwyr ynghylch y cymorth i ddysgwyr

- 4.43 At ei gilydd, roedd y cyflogwyr yn fodlon ar y cymorth a ddarparwyd gan ddarparwyr hyfforddiant a thiwtoriaid i ddysgwyr a gwblhaodd y dyfarniad Trawsnewid i Waith Chwarae. Rhannodd un cyflogwr sut y cynhaliodd y darparwyr hyfforddiant weithdai

yn y feithrinfa a gafodd effaith gadarnhaol ar brofiad y staff o ymgymryd â'r cymhwyster.

“Cymorth gwych gan [y darparwr hyfforddiant], fe wnaeth hyd yn oed drefnu gweithdai yn y feithrinfa a fu o gymorth i'r staff i gysylltu'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu â'u swyddi.” – Cyflogwr, Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae, GCC.

- 4.44 Nododd y cyflogwyr hefyd eu bod yn cael adborth rheolaidd gan y tiwtoriaid, a bu hyn o gymorth iddyn nhw a'u staff i deimlo eu bod yn gwneud cynnydd.

“Roedd y tiwtoriaid [yn] barod iawn eu cymorth ac yn rhoi adborth cyson i ni. Fe wnaeth yn ein helpu i gefnogi ein staff yn y ffordd orau bosibl. Roedd fy staff hefyd yn canmol y cymorth a gawsant yn ystod y cwrs.” – Cyflogwr, Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae, GCC.

- 4.45 Er bod ambell gyfranogwr a gyfwelwyd wedi disgrifio profiadau negyddol o'r newid i ddysgu ar-lein o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 (fel yr amlinellwyd yn flaenorol), ni nododd y rhan fwyaf o'r cyflogwyr a gyfwelwyd unrhyw effeithiau andwyol ar ddysgwyr a chyflogwyr; nododd rhai cyflogwyr fanteision gweithio o bell, gan fod ansawdd y dysgu gan y tiwtoriaid wedi aros yr un fath.

“Cafodd [y cynnwys] ei ddarparu dros Zoom, rwy'n meddwl bod hynny'n well i bawb gan nad oedd rhaid iddyn nhw deithio i unrhyw le, gallen nhw i gyd ei wneud ar eu gliniaduron. Digwyddodd hyn oherwydd COVID, ond dw i ddim yn credu bod y pandemig wedi effeithio ar y cwrs o gwbl. Roedd digon o gefnogaeth ar gael gan y darparwr o hyd.” - Cyflogwr, Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae, GCC.

- 4.46 Ymhlith y cyflogwyr yr oedd eu staff wedi cwblhau cwrs o dan y llwybr prentisiaeth, roedd y farn ynghylch y gefnogaeth a ddarparwyd i ddysgwyr yn fwy cymysg. Mae'n ofynnol i gyflogwyr fod yn rhan o drafodaethau am gynnydd dysgwyr, a dywedodd rhai cyflogwyr fod cyswllt rheolaidd, a chyfathrebu cyson. Yn yr achosion hyn, nododd y cyflogwyr eu bod yn gallu cysylltu â'r tiwtor yn ddidrafferth.

“Cysylltiad rheolaidd rhwng yr hyfforddwyr a'r rheolwr, roedd yn orfodol bod y rheolwr yn rhan o'r broses ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am bopeth. Os oeddwn i eisiau gwirio cynnydd, roedd yn hawdd cysylltu â'r hyfforddwr.” - Cyflogwr, Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae, GCC.

- 4.47 Fodd bynnag, dywedodd rhai cyflogwyr fod gwahaniaethau o ran y ffordd yr oedd tiwtoriaid yn cyfathrebu â chyflogwyr. Roedd yn ymddangos bod hyn yn amrywio

rhwng darparwyr hyfforddiant a hefyd rhwng gwahanol diwtoriaid a oedd yn gweithio i'r un darparwr. Derbyniodd rhai rheolwyr adolygiadau gan diwtoriaid y cwrs, a roddodd wybodaeth am gynnydd y cyfranogwyr. Roedd hyn yn sicrhau bod y rheolwyr yn gallu dilyn taith ddysgu'r cyfranogwyr, a deall ble i ddarparu cymorth ychwanegol, os oedd angen.

“Mae'r rheolwr [yn derbyn] adolygiad gan y tiwtor [yn crynhoi cynnydd y dysgwr], sy'n wych, doedd hynny ddim yn digwydd yn y blynyddoedd blaenorol gyda thiwtoriaid a oedd yn gweithio i'r un darparwr. Felly, mae'n teimlo mai mater o lwc yw hi os bydd y tiwtor yn gefnogol ai peidio” - Cyflogwr, Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae, DC.

- 4.48 Mewn gwrthgyferbyniad â'r safbwyntiau a fynegwyd gan gyflogwyr mewn perthynas â dyfarniadau Trawsnewid i Waith Chwarae, dywedodd rhai cyflogwyr a fu'n ymwneud â'r llwybr prentisiaeth fod y pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar y gefnogaeth a'r cyfathrebu gan y tiwtoriaid. Dywedwyd bod eu profiad gyda'r darparwr hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwn wedi golygu eu bod wedi penderfynu dod o hyd i ddarparwyr hyfforddiant eraill. Nodwyd bod cyfathrebu gwael yn cyfrannu at gymryd mwy o amser na'r disgwyl i gwblhau'r cwrs.

“Yn ystod y pandemig roedd y cyfathrebu gan [y darparwr hyfforddiant] yn ofnadwy, ni wnaeth y tiwtoriaid unrhyw ymdrech i weithio gyda'r pandemig ac fe gymerodd oesoedd. Fyddwn i ddim yn eu hargymell oherwydd y darparwr. Cymerodd ddwy flynedd a hanner i orffen y cwrs oherwydd y pandemig ac roedd diffyg cefnogaeth gan y tiwtoriaid drwyddo draw. Fe wnaethom gwyno i'r awdurdod lleol, ni chawsom unrhyw gefnogaeth bellach ond roedd yn deimlad braf gallu dweud ein dweud” - Cyflogwr, CCPLD Lefel 3, DC.

5. Canfyddiadau: Deilliannau'r Rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant

- 5.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno barn cyfranogwyr a chyflogwyr ar effaith PfS ar wybodaeth a sgiliau'r cyfranogwyr, rhagolygon swyddi a'r tebygolrwydd o ymgymryd â hyfforddiant pellach.

Effaith: Gwell gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau

- 5.2 Yn gyffredinol, rhoddodd y cyfranogwyr a gyfwelwyd adborth cadarnhaol ar yr effaith y mae ymgymryd â chymhwyster a ariannwyd gan PfS wedi'i chael ar eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau fel ymarferwr gofal plant/gwaith chwarae.

Llwybr at Chwarae: Trawsnewid i Waith Chwarae

- 5.3 Nododd rhai cyfranogwyr a gyfwelwyd a oedd wedi dilyn y cymhwyster Trawsnewid i Waith Chwarae fod y cwrs wedi cynyddu eu gwybodaeth am egwyddorion gwaith chwarae a'u gwneud yn fwy ymwybodol o'r gwahanol arddulliau chwarae. Gweler astudiaethau achos 3, 'Emma' a 4, 'Diana' yn adran 6 am enghreifftiau. Dywedodd y cyfranogwyr hefyd fod y cwrs wedi rhoi dealltwriaeth iddynt o'r gwahanol gamau yn natblygiad plant a gwahanol ddulliau o gefnogi chwarae ar wahanol oedrannau. Mae cynyddu eu gwybodaeth wedi bod yn fuddiol o ran galluogi cyfranogwyr i gefnogi/hwyluso cyflwyno darpariaeth blynyddoedd cynnar ac ar ôl ysgol.

“Ar hyn o bryd rydym yn gofalu am blant hyd at 4 blwydd a 9 mis oed. Ond pe baem yn cynnal clwb ar ôl ysgol, gallwn ddarparu gofal i blant hyd at 12 oed. Felly mae'n ymwneud â deall sut i gynllunio ar gyfer y grŵp oedran hwnnw. Er bod llawer ohono yn bethau y byddech chi'n eu gwneud yn awtomatig beth bynnag, roedd y cwrs yn ymwneud â deall pam rydych chi'n ei wneud a sut i'w roi ar waith ymhellach. Yn amlwg nid yw plentyn 12 oed yn mynd i fod eisiau gwneud yr hyn y mae fy mhlant 3 oed yn ei wneud.” – Cyfranogwr, Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae, GCC.

- 5.4 Ymhellach, dywedodd y rhai a ddilynodd y cwrs Trawsnewid i Waith Chwarae eu bod yn rhannu'r wybodaeth newydd a gawsant ar y cwrs gyda chydweithwyr. Mae hyn yn dangos effaith ehangach PfS ar leoliadau gofal plant/chwarae a'u staff.
- 5.5 I lawer o'r rhai a gyfwelwyd roedd y cymhwyster Trawsnewid i Waith Chwarae wedi cynyddu eu hyder fel ymarferydd. Yn benodol, roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n fwy hyderus i reoli chwarae ac i feddwl am ddarpariaeth o safbwynt gwaith chwarae o

ganlyniad i ddilyn y cwrs. At hynny, nododd llawer o gyfranogwyr Trawsnewid i Waith Chwarae fod gwahaniaethau yn y modd yr oeddent yn hwyluso chwarae plant ac yn asesu risgiau. O ganlyniad i ddealltwriaeth well o chwarae, teimlai llawer o'r cyfranogwyr fod profiadau'r plant yn eu lleoliad wedi gwella. Un enghraifft a grybwyllwyd gan y rhai a gyfwelwyd oedd rhoi mwy o gyfle i blant gymryd yr awenau wrth gyfarwyddo eu chwarae eu hunain.

“Mae'n ymwneud â rhoi'r rhyddid i [blant] chwarae, archwilio'r byd - eu harsylwi ac ymateb iddyn nhw, bod yno pan fydd ein hangen ni arnyn nhw. Cadw ein llygaid ar agor am unrhyw blant nad ydyn nhw'n cymryd cymaint o ran a'u cefnogi i ryngweithio ac ymgysylltu – os oes angen cymorth ychwanegol arnyn nhw.” – Cyfranogwr, Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae, GCC.

“Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i fy ymarfer a sut rwy'n gweithio gyda phlant. Roeddwn i'n arfer cwestiynu'r plant yn llawer mwy – o edrych yn ôl, roeddwn i'n arfer cyfarwyddo mwy ar eu chwarae, cyfarwyddo gormod yn ôl pob tebyg ac 'ymyrryd' yn fwy nag yr oedd ei angen. Nawr rwy'n gweld fy hun yn fwy o adnodd iddyn nhw - i fod yno pan fyddan nhw fy angen i. Mae wedi agor fy llygaid i sut y gallwn gefnogi'r plant i fod yn fwy annibynnol. Rydym yn eu hannog i gymryd risgiau (yn amlwg mewn ffordd ddiogel gyda chefnogaeth). Mae popeth rydyn ni'n ei wneud nawr yn canolbwyntio mwy ar y dysgwyr.” – Cyfranogwr, Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae, GCC.

- 5.6 Yn ystod y cyfweiliadau ar gyfer y gwerthusiad, cadarnhaodd y cyflogwyr y bu i'w staff ymgymryd â'r cymhwyster Trawsnewid i Waith Chwarae fod y cwrs wedi cael effaith gadarnhaol ar eu gweithwyr, gan egluro bod eu gweithwyr wedi dod yn ymarferwyr mwy medrus a gwell. Nododd un cyflogwr, a ymgymerodd â'r cymhwyster ei hun, ei fod yn fwy gwybodus ynghylch polisïau'r lleoliad y mae'n gweithio ynddo a'r gyfraith ar iechyd a diogelwch a lles plant nad oedd yn gwybod amdanynt cyn dilyn y cwrs ac roedd modd iddo rannu'r wybodaeth gyda chyflogeion ar ôl cael ei ddyrchafu i rôl rheolwr.

“Roedd yn beth da darganfod darnau o wybodaeth newydd am ddeddfwriaeth. Roedd yn dda cael gwybodaeth am yr ochr yma o bethau, gan nad oeddwn yn gwybod dim amdano. Mae wedi fy helpu yn fy ymarfer i allu rhannu egwyddorion gwaith chwarae gyda staff eraill ac rwy'n teimlo bod hyn wedi fy helpu'n fawr i wneud fy swydd yn well.” Cyflogwr, Llwybr at Chwarae, DC.

Prentisiaethau Peilot

- 5.7 Esboniodd rhai a ddilynodd brentisiaethau peilot, o ganlyniad i ddilyn y cwrs, fod ganddynt ddealltwriaeth well o bolisiau a gweithdrefnau eu cwmni a'u bod wedi eu harchwilio'n fanylach nag y byddent wedi'i wneud fel arall. Dywedodd rhai cyfranogwyr y bu hyn yn ddefnyddiol iddynt. Er enghraifft, esboniodd un cyfranogwr ei fod yn symud ymlaen i rôl rheolwr sy'n gofyn am ddealltwriaeth fanwl o bolisiau a gweithdrefnau'r cwmni. Ceir trafodaeth bellach ar effaith PFS ar ragolygon swyddi dysgwyr yn ddiweddarach yn yr adran hon.
- 5.8 Nododd rhai prentisiaid a gyfwelwyd eu bod, o ganlyniad i ymgymryd â'r cymhwyster, wedi cael gwybodaeth ymarferol i'w galluogi i wella eu harferion gofal plant/gwaith chwarae. Er enghraifft, myfyriodd y prentisiaid a gyfwelwyd ac a oedd wedi dilyn cymhwyster CCPLD ar eu gwybodaeth gynyddol am gerrig milltir datblygiad plant. Esboniodd un cyfranogwr sut roedd y wybodaeth well hon yn ddefnyddiol i alluogi i arsylwi'n well ar ddatblygiad plant, nodi pan fydd plant wedi cyrraedd y gwahanol gerrig milltir ac i siarad yn hyderus â rhieni am ddatblygiad eu plentyn.
- “Gallwn siarad â'r rhieni os byddwn ni'n gweld nad yw eu plant yn cyrraedd eu carreg filltir. Neu os yw'r rhieni'n poeni, gallwn gael sgwrs gyda nhw ac egluro nad yw pawb yr un fath. Felly, rwyf wedi dysgu llawer o wybodaeth rwy'n gallu ei chyfleu i rieni sy'n poeni.” – Cyfranogwr, Lefel 2 CCPLD, GCC.
- 5.9 Eglurodd prentisiaid a oedd wedi ymgymryd â'r cymhwyster Gwaith Chwarae sut yr oeddent wedi cael gwell dealltwriaeth o'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â gwaith chwarae, gan gynnwys pwysigrwydd chwarae, yn enwedig chwarae a arweinir gan blant, o ran cefnogi dysgu a datblygiad plant. Er enghraifft, fe wnaeth un cyfranogwr a gyfwelwyd fyfyrion ar sut yr oedd wedi dysgu am y 'gwahanol fathau o chwarae a sut mae plant yn ysgogi chwarae'.
- “Dysgu faint y gall plant ei ddysgu drwy chwarae...a gwybod y gwahaniaeth rhwng chwarae sy'n cael ei arwain gan oedolion a chwarae sy'n cael ei arwain gan blant a'r holl wahanol fathau o chwarae. Y pethau hynny i gyd oedd y pethau oedd fwyaf diddorol i mi.”- Cyfranogwr, Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae, GCC.
- 5.10 Yn ogystal â gwell gwybodaeth a dealltwriaeth, roedd tystiolaeth a gasglwyd o gyfweiliadau â phrentisiaid peilot yn awgrymu bod y cymwysterau CCPLD neu Waith Chwarae wedi cael effaith gadarnhaol ar sgiliau'r cyfranogwyr. Soniodd y rhai a

gyfwelwyd, ar ôl cwblhau eu CCPLD neu gymhwyster Gwaith Chwarae, eu bod wedi gallu gwella eu sgiliau wrth ddylunio a gweithredu gweithgareddau a oedd wedi'u teilwra'n well i anghenion a diddordebau'r plant dan eu gofal:

“Cynllunio gweithgareddau'n well – rhoddodd [y cymhwyster] fwy o ddealltwriaeth o chwarae a sgiliau plant sydd eu hangen arnynt rhwng tair a 10 oed.” – Cyfranogwr, Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae, GCC.

- 5.11 Mae'r wybodaeth a'r sgiliau a gafodd y cyfranogwyr drwy ymgymryd â'u cymhwyster prentisiaeth wedi cael effaith ar hyder y cyfranogwyr yn eu hymarfer eu hunain.

“Rwy'n llawer mwy hyderus nawr o ran bod yn weithiwr chwarae. O'r blaen doeddwn i ddim yn siŵr iawn os oeddwn i'n gwneud y peth iawn. Weithiau roeddwn i'n teimlo os oeddwn i ond yn gwyllo'r plant, doeddwn i ddim yn gwneud digon. Ond drwy ddilyn y cwrs, fe wnes i sylweddoli mai dim ond bod yno yw'r hyn rwyf i fod i wneud a does dim angen ymyrryd bob tro.” - Cyfranogwr - Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae, GCC.

- 5.12 Ymhellach, rhoddodd y prentisiaid a gyfwelwyd enghreifftiau o sut y maent wedi defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth well a gawsant yn sgil eu cymhwyster o fewn eu hymarfer fel ymarferydd gofal plant/gwaith chwarae.

“Rwyf wedi eu defnyddio yn fy swydd...dw i ddim yn ymyrryd ac yn ceisio helpu cymaint. Mae hynny'n well i'r plant ac yn well i'w datblygiad...Mae'n ymwneud â gwybod pryd mae angen ymyrraeth gan oedolyn a phryd y byddai hynny'n fwy o rwystr.” – Cyfranogwr, Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae, GCC.

- 5.13 I'r gwrthwyneb, teimlai rhai cyfranogwyr, er bod y cwrs wedi cynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o weithdrefnau sy'n gysylltiedig â gwaith chwarae, ei bod yn anodd rhoi'r rhain ar waith yn ymarferol yn eu lleoliad ar adegau. Roeddent hefyd yn gofyn i fwy o'r cwrs ganolbwyntio ar esbonio chwarae i eraill megis rhieni neu ymddiriedolwyr lleoliad, a sut i eirioli dros chwarae,

“Y peth oedd yn anodd i mi, a dyma beth wnaethon nhw ei ddysgu i ni ar y cwrs hefyd, oedd cael cefnogaeth pobl eraill [gydag egwyddorion gwaith chwarae]. Oherwydd pan fydd y plant yn chwarae'n rhydd gyda gwrthrychau rhydd ac efallai'n cymryd risgiau, mae pobl yn dal i gwestiynu hynny, yn gofyn 'pam?', ddylen nhw ddim bod yn chwarae fel yna.' Felly yr eirioli sy'n achos trafferth i mi” - Cyfranogwr, Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae, DC.

5.14 Roedd mwy o hyder oherwydd bod sgiliau prentisiaid wedi gwella ers cwblhau'r cymhwyster yn thema gyffredin a nodwyd gan gyflogwyr yr oedd eu staff wedi ymgymryd â phrentisiaeth beilot. Dywedodd cyflogwyr fod yr aelodau hyn o staff bellach yn fwy hyderus wrth ganiatáu i blant fod yn annibynnol wrth chwarae a mabwysiadu dull sy'n cael ei arwain gan y plentyn, a oedd, yn eu barn nhw, yn darparu gwell profiad dysgu a chwarae i'r plant.

“Mae'r gofal wedi gwella...mae'r ymarfer wedi newid. Er enghraifft, amser byrbryd, cyn y cymhwyster roedd y staff yn arfer paratoi hynny i gyd ar ran y plant, nawr mae'n rhoi rhwydd hynt iddyn nhw wneud y cyfan eu hunain. Rhoi bara yn y tostiwr, nôl y cacennau reis eu hunain. Mae'r plant yn cael mwy o annibyniaeth sy'n beth cadarnhaol iawn ac mae'r staff yn fwy hyderus i ganiatáu hynny sy'n well i mi fel cyflogwr gan fod y staff yn fwy medrus nawr.” - Cyflogwr, Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae, GCC.

5.15 Ymhellach, soniodd un cyflogwr am sut mae dysgu sgiliau penodol yn ystod y cwrs wedi cynyddu hyder ei staff fel ymarferwyr, gan wella'r gofal a roddir yn y feithrinfa. Mae'r sgiliau newydd yn cynnwys gallu cynllunio sesiynau a chynnal asesiadau risg cywir.

“Mae'r staff yn llawer mwy hyderus ynddyn nhw eu hunain, ac mae hyn yn eu helpu i ddarparu'r gofal gorau i'r plant. Maen nhw'n gallu rhoi mwy o ryddid i'r plant ac maent yn well am gynllunio sesiynau chwarae nawr yn ogystal ag asesu risg. Helpodd y cwrs gyda hyn gan na fyddent wedi gallu gwneud hyn o'r blaen, mae'n sgil newydd ac mae wedi helpu i wella eu sgiliau yn y gweithle yn sicr.” - Cyflogwr, Lefel 3 CCPLD, GCC.

Effaith: Gwell rhagolygon swyddi

5.16 I rai cyfranogwyr a gyfwelwyd, mae ymgymryd â chymhwyster a ariannwyd gan Pfs wedi cael effaith gadarnhaol ar eu rhagolygon swydd a'u dilyniant gyrfa. Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd a oedd wedi dilyn y cwrs Trawsnewid i Waith Chwarae neu brentisiaeth beilot eu bod yn dal i weithio yn yr un lleoliad ar ôl cwblhau'r cymhwyster. Nododd rhai fod y cwrs wedi eu gwneud yn fwy penderfynol i aros yn y sector gofal plant/chwarae.

“Rwyf am barhau i weithio yn y sector hwn – fe wnaeth y cwrs gadarnhau pam rwy'n gwneud hyn.” – Cyfranogwr, Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae, GCC.

“Mae dilyn y cwrs wedi gwneud i mi fod eisiau aros yn y sector gofal plant yn fwy nag yr oeddwn i o'r blaen. Mae wedi fy atgoffa pam fy mod i'n gwneud hyn.” - Cyfranogwr, Lefel 3 CCPLD, DC.

- 5.17 Mewn rhai achosion, roedd cyfranogwyr y cwrs Trawsnewid i Waith Chwarae a gyfwelwyd wedi ymgymryd â rolau ychwanegol ers cwblhau'r cymhwyster. Dywedwyd bod cwblhau'r cymhwyster Trawsnewid i Waith Chwarae wedi bod yn ffactor i rai ymgymryd â'r rolau ychwanegol hyn. Er enghraifft, eglurodd un cyfranogwr a gyfwelwyd fod ennill y cymhwyster yn golygu ei fod wedi gallu cael swydd gweithiwr chwarae mewn clwb ar ôl ysgol.
- 5.18 Mewn achosion eraill, roedd y rhai a ddilynodd y cwrs Trawsnewid i Waith Chwarae wedi ymgymryd â rôl uwch neu fwy o gyfrifoldebau ac roedd cwblhau eu cymhwyster yn ffactor a oedd yn eu galluogi i wneud hyn.
- 5.19 Yn yr un modd, soniodd rhai cyfranogwyr prentisiaethau peilot eu bod wedi cael dyrchafiad yn eu priod weithleoedd ar ôl cwblhau'r cymhwyster CCPLD neu Waith Chwarae. Mae hyn yn dangos y gwerth a roddodd eu cyflogwyr ar sgiliau ac arbenigedd newydd y cyfranogwyr o ganlyniad i gwblhau eu cymhwyster.

“Ar ôl i mi gael y cymhwyster lefel tri, fe wnaeth [perchennog y lleoliad] fy argymell [ar gyfer rôl rheolwr] gyda'r cymwysterau sydd gen i a'r profiad rydw i wedi'i fagu”. – Cyfranogwr, Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae, GCC.

- 5.20 O ran tua hanner y cyfranogwyr a gyfwelwyd, ni fu newidiadau yn eu rôl neu eu cyfrifoldebau. Yn lle hynny, dywedwyd bod cymryd rhan yn y cwrs wedi cryfhau eu diddordeb yn y sector ac wedi cynyddu eu tebygolrwydd o aros yn y rôl a'r sector. (Gweler astudiaeth achos 1, 'Gemma' yn adran 6)

- 5.21 Pan ofynnwyd i un cyflogwr a yw ei weithwyr wedi cynyddu eu gwybodaeth a'u sgiliau ers ennill y cymhwyster, dywedodd un cyflogwr sut y mae wedi helpu un aelod o staff i gael dyrchafiad oherwydd bod ganddo lefel uwch o gymhwysedd. Dywedodd fod y cwrs wedi ei helpu i adnabod goddrychedd ei waith a dysgu i deilwra ei ofal i bob plentyn unigol.

“Aeth [aelod o staff] ymlaen i fod yn oruchwyliwr - fe wnaeth y cwrs helpu gyda sgiliau cynllunio a threfnu. A gwybod sut i addasu'r gofal yn dibynnu ar anghenion y plentyn a'r hyn y mae'n mynd drwyddo, rwy'n teimlo bod gwybod hyn wedi gwella'r gofal yn fy meithrinfa a hefyd i ymarferwyr unigol.” - Cyflogwr, Dyfarniad Trawsnewid i Waith Chwarae Llwybr at Chwarae, GCC.

Effaith: Mynd ymlaen i hyfforddiant pellach

Llwybr at Chwarae: Trawsnewid i Waith Chwarae

- 5.22 Cyfeiriodd y rhai a gymerodd ran yn y dyfarniad Trawsnewid i Waith Chwarae at hyfforddiant pellach yr oeddent yn ymchwilio iddo ers cwblhau eu cymhwyster. Nododd rhai eu dyhead i gwblhau Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae:
- “Rwy’n ystyried Lefel 4 neu 5 mewn gofal plant neu waith chwarae. Mae gen i fwy o ddi-ddordeb yn y cymhwyster nesaf oherwydd pan fyddwch chi’n dechrau arno, rydych chi eisiau dysgu mwy a pharhau i ddatblygu - felly byddwn yn ystyried cymhwyster chwarae ar lefel uwch pe bai’r cyfle’n codi.” – Cyfranogwr, Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae, DC.
- 5.23 Nododd un cyfranogwr, er nad oedd yn bwriadu ymgymryd â chymwysterau eraill ar hyn o bryd, o ganlyniad i gwblhau’r dyfarniad Trawsnewid i Waith Chwarae, roedd staff yn ei leoliad wedi datblygu diddordeb mewn rhoi’r dull o gynllunio ‘yn y foment’ ar waith sy’n golygu gadael i’r plant gymryd yr awenau ac sy’n cysylltu â’r egwyddorion gwaith chwarae a gwmpesir yn y cymhwyster Trawsnewid i Waith Chwarae. O ganlyniad, esboniodd y cyfranogwr hwn ei fod yn ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer cymorth a hyfforddiant i ymgorffori cynllunio 'yn y foment' yn ei ymarfer.
- 5.24 Dywedodd rhai o gyfranogwyr y cwrs Trawsnewid i Waith Chwarae a gyfwelwyd eu bod yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar fentora cydweithwyr yn y dulliau a’r arferion yr oeddent wedi’u dysgu ar y cwrs gan fod y cyfranogwyr hyn yn dechrau eu cyflwyno yn eu lleoliad gyda chymorth eu rheolwr ers cwblhau’r cwrs. Felly, mae hyn yn awgrymu bod y cyfranogwyr hyn yn canolbwyntio ar raeadrur hyn y maent wedi’i ddysgu i ymarferwyr eraill yn hytrach na chwilio am gyfleoedd hyfforddi pellach iddyn nhw eu hunain.

Prentisiaethau Peilot

- 5.25 Cyfeiriodd rhai o’r cyfranogwyr a gymerodd ran mewn prentisiaethau peilot at gyfleoedd hyfforddi pellach yr oeddent wedi’u cyflawni neu yr oeddent yn eu harchwilio ers cwblhau’r cymhwyster CCPLD neu Waith Chwarae. Er enghraifft, esboniodd un a gwblhaodd CCPLD Lefel 2 drwy PfS sut yr oedd hyn yn ei alluogi i symud ymlaen wedyn i wneud cymhwyster lefel 3.

“Roedd Lefel 2 yn garreg gamu i mi, fe wnaeth fy ngalluogi i fynd ymlaen i wneud Lefel 3. Roedd gwybod bod gen i gymhwyster Lefel 2 wedi rhoi hwb ychwanegol i mi. Felly, meddyliais 'iawn, ymlaen â fi at lefel 3 ar unwaith.' Achos mae popeth yn ffres yn fy nghof. Yna gallwn i gael cymhwyster ychwanegol a gwella fy hun.”
– Cyfranogwr, Lefel 3 CCPLD, GCC.

- 5.26 Yn ogystal â hynny, myfyriodd un o gyfranogwyr y brentisiaeth beilot ar sut roedd ennill cymhwyster Lefel 3 wedi rhoi'r awydd a'r cymhelliant iddo symud ymlaen i wneud cwrs Arweinyddiaeth Lefel 5, y cam nesaf ar ôl prentisiaeth.
- 5.27 Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd yn dal i fyfrio ar yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu ac nid oedd ganddynt unrhyw gynlluniau i ddilyn hyfforddiant pellach yn y dyfodol agos.

Cysoni â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

- 5.28 Roedd y Cynllun Busnes ar gyfer y rhaglen yn nodi sut y cynlluniwyd PfS i gyd-fynd â mentrau a blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru. Yn benodol, manylodd ar sut yr oedd PfS yn bwriadu cyfrannu at y Cynllun Cyflogadwyedd³⁴ drwy annog cyflogwyr i uwchsgilio a chefnogi eu staff a darparu cyfleoedd a chefnogaeth i ymarferwyr gofal plant a chwarae presennol ehangu a gwella lefel eu sgiliau. Yn yr un modd, mae'r Cynllun Busnes yn amlinellu sut yr oedd PfS yn bwriadu cefnogi'r ymrwymadau yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a Ffyniant i Bawb³⁵ drwy ddarparu cyfleoedd i gefnogi gweithlu sy'n ehangu i ehangu a gwella eu sgiliau a thrwy wneud hynny gyfrannu'n weithredol at sicrhau bod pob plentyn o bob cefndir yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.
- 5.29 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn sail i bolisi Llywodraeth Cymru, sy'n amlinellu saith nod llesiant.³⁶ Mae'r nod sy'n gysylltiedig â 'Cymru lewyrchus' eisiau i Gymru fod yn 'gymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig". Dyluniwyd PfS i fod yn gyson â'r nod hwn, yn ogystal â chyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal, a Chymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
- 5.30 Mae'r canfyddiadau a drafodir yn yr adran hon drwyddi draw yn dangos bod y rhaglen wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan o ran cyfrannu at y nodau hyn gyda'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn adrodd bod eu sgiliau wedi cynyddu o ganlyniad i

³⁴ [Cynllun cyflogadwyedd 2018 | LLYW.CYMRU](#)

³⁵ [Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu ar yr economi | LLYW.CYMRU](#)

³⁶ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015: yr hanfodion \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

ymgymryd â'u cymhwyster. O ganlyniad, nododd y cyfranogwyr hyn welliannau yn eu hymarfer a'u gallu i gefnogi datblygiad plant. Ategwyd y canfyddiadau hyn gan gyflogwyr a oedd, yn ystod y cyfweiliadau, yn cydnabod gwelliannau yn sgiliau eu gweithwyr a'u hymarfer. Fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adran hon, dywedodd rhai cyfranogwyr fod ymgymryd â chymhwyster PfS wedi helpu i wella eu rhagolygon a'u dilyniant gyrfa. Awgryma'r canfyddiadau hyn fod y rhaglen wedi cyfrannu at nodau a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, ond ar raddfa fwy cyfyngedig na'r bwriad oherwydd bod llai o gyfranogwyr yn cymryd rhan.

Deilliannau'n ymwneud â'r themâu trawsbynciol

Cefndir y themâu trawsbynciol

- 5.31 Roedd yn ofynnol i'r holl raglenni a ariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yng Nghymru ymgorffori themâu trawsbynciol yn eu gwaith cynllunio, gweithredu a monitro. Roedd Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol, sy'n cael eu harwain a'u cefnogi gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), yn ymgorffori tair thema drawsbynciol allweddol:
- cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd, gan gynnwys yr iaith Gymraeg;
 - datblygu cynaliadwy;
 - trechu tlodi ac allgau cymdeithasol.
- 5.32 Un o amcanion y rhaglen PfS oedd cyfrannu at y themâu trawsbynciol ac roedd Cynllun Busnes PfS yn nodi sut yr oedd gweithrediad PfS yn bwriadu cyfrannu at y themâu hyn.
- 5.33 Gyda chytundeb WEFO, bwriadwyd i'r rhaglen PfS gyfrannu at y mesurau canlynol fel rhan o'r themâu trawsbynciol;
- Camau gweithredu cadarnhaol i gefnogi pobl anabl;
 - Mesurau'n ymwneud ag effeithlonrwydd adnoddau;
 - Datblygu ac ymgysylltu ag Eiriolwyr Themâu Trawsbynciol;
 - Gweithgarwch Mentora / Eirioli;
 - Gweithgarwch i gefnogi cymheiriaid;
 - Gwella'r gadwyn gyflenwi leol;
 - Nodi a chefnogi cyfleoedd i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a chefnogi siaradwyr yr iaith.

- 5.34 Daw'r dystiolaeth ar gyfer yr adran hon ar themâu trawsbynciol yn bennaf o gyfweiliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru, darparwyr hyfforddiant a rhanddeiliaid. Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd ymchwil desg i ddadansoddi data monitro ac archwilio astudiaethau achos a gyflwynwyd gan ddarparwyr hyfforddiant i Lywodraeth Cymru.

Ymgorffori Themâu Trawsbynciol yng nghynllun y rhaglen

- 5.35 Cafodd y gwaith o ddarparu prentisiaethau PfS ei gaffael o dan y fframwaith dysgu seiliedig ar waith presennol ac roedd y contract rhwng Llywodraeth Cymru a phob darparwr llwyddiannus yn nodi'r rhwymedigaethau o dan y themâu trawsbynciol, a oedd yn cynnwys polisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig. Fel rhan o'r ymarfer caffael ar gyfer y dyfarniadau Trawsnewid i Waith Chwarae a L2 APP, hysbyswyd darparwyr hyfforddiant drwy'r gwahoddiad i dendro o'r gofyniad i fynd i'r afael â themâu trawsbynciol ac adrodd arnynt. Dywedwyd wrthynt, pe baent yn llwyddiannus, y byddai angen iddynt enwebu aelod o staff i arwain ar Themâu Trawsbynciol. Bydd gofyn iddynt gyfarfod yn rheolaidd ag Aseswyr/Hyfforddwyr neu unrhyw Is-gontractwyr i adolygu pa gamau/gweithdrefnau sydd wedi'u rhoi ar waith i gyrraedd targedau'r themâu trawsbynciol.

Tystiolaeth o gyfraniad tuag at y themâu trawsbynciol

- 5.36 Mae cynllun y rhaglen, o ran uwchsgilio gweithwyr gofal plant a gweithwyr chwarae, yn cyfrannu at y themâu trawsbynciol. Yn benodol, mae'r ffocws ar ofal plant a gweithwyr chwarae yn cyfrannu at wella mynediad at ofal plant o ansawdd uwch, a all yn ei dro wella cyfleoedd bywyd plant sy'n gysylltiedig â chyfle cyfartal a threchu tlodi.
- 5.37 Nod y rhaglen yn y cyfnod 2019-2023 oedd darparu cyfleoedd cyfartal i ymarferwyr presennol cymwys 18 oed a hŷn uwchsgilio, waeth beth fo'u rhywedd, iechyd, anabledd ac ethnigrwydd. Roedd y Cynllun Busnes gwreiddiol yn cynnwys targedau ar gyfer cyfranogwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster yn llawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y rhaglen yn annog darparwyr hyfforddiant dan gontract i integreiddio datblygu cynaliadwy yn eu darpariaeth.
- 5.38 Gosododd Cynllun Busnes PfS darged ar gyfer ymarferwyr mewn categorïau gwahanol, dros gyfnod cyfan y rhaglen, sef 2016-2023, yn rhanbarth GCC, fel y

nodir yn ffigur 5.1.³⁷ Mae'r data ar broffil y cyfranogwyr ar gyfer y cyfranogwyr hynny a gymerodd ran yn y cyfnod hwnnw hefyd wedi'i nodi yn y tabl hwnnw.

Tabl 5.1: Nifer a chanran wedi'u targedu o ymarferwyr ar gyfer Cynnydd ar gyfer Llwyddiant (y rhaglen gyfan 2016-2023), yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd

	Canran Targed	Nifer Gwirioneddol y Cyfranogwyr a Gefnogwyd	Canran y Cyfranogwyr a Gefnogwyd
Cyfanswm	100%	1,063	100%
Gwrywod	5%	36	3.4%
Anabledd	10%	51	4.8%
Y Gymraeg (yr holl ddysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog)	15%	408	38.4%
Ethnic Lleiafrifol	2%	16	1.5%

Ffynhonnell: Taenlen Llywodraeth Cymru, dyddiedig Mai 2023.

- 5.39 Mae cyfran y cyfranogwyr gwrywaidd, y cyfranogwyr anabl, a chyfran y cyfranogwyr ethnig lleiafrifol yn is na'r ffigurau targed a amlinellir yn y Cynllun Busnes. Nododd y darparwyr hyfforddiant nad oeddent yn targedu unrhyw segmentau penodol o'r gweithlu ond yn hytrach yn hyrwyddo a marchnata cymwysterau i gyflogwyr, a oedd yn sicrhau eu bod ar gael i bob gweithiwr addas. Serch hynny, dywedodd rhai darparwyr hyfforddiant eu bod wedi adolygu deunyddiau marchnata cyffredinol a chynnwys cyrsiau fel rhan o'u hymwneud â'r fframwaith prentisiaeth ehangach i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer pob unigolyn. Gan nad oedd y darparwyr hyfforddiant yn canolbwyntio'n benodol ar unrhyw grwpiau penodol, mae'n debygol bod y cyfranogwyr dan sylw yn rhannu proffil tebyg i'r gweithlu cyffredinol, fodd bynnag nid oes data ar gyfansoddiad y gweithlu gofal plant a chwarae yng Nghymru ar gael er mwyn cymharu.
- 5.40 Roedd y Cynllun Busnes yn cynnig yn ystod oes y rhaglen PfS y byddai 15 y cant o'r cyfranogwyr yn cwblhau eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog ac mae'n nodi ei fod yn credu y byddai modd cyflawni hynny pe bai unrhyw

³⁷ Cynllun Busnes Ailwerthusiad o'r Rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant (Saesneg yn unig), Hydref 2018. Llywodraeth Cymru (Heb ei gyhoeddi) Llywodraeth Cymru, Hydref 2018 (Heb ei gyhoeddi)

weithgaredd dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn cael eu cyfrif tuag at y targed. Roedd nifer y cyfranogwyr a dderbyniodd ryw fath o ddarpariaeth Gymraeg wedi rhagori ar y targed, gan gyrraedd 38.4 y cant. Fodd bynnag, o blith yr holl gyfranogwyr, dim ond 24 o unigolion sydd wedi'u cofnodi fel rhai sydd wedi cofrestru mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r gweddill wedi eu cofrestru fel cwblhau 'yn rhannol' yn y Gymraeg. Ymhellach, ar gyfer y cyfranogwyr a gafodd eu cyfweld, er eu bod wedi dweud eu bod wedi cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg, nid oeddent yn disgrifio eu profiad dysgu fel un dwyieithog na chyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r rhai a gafodd hyfforddiant Cymraeg rhannol fod wedi cael profiad cyfyngedig o ddeunyddiau a dysgu cyfrwng Cymraeg ac felly mae'n annhebygol o gael llawer o effaith ar eu defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau. O ganlyniad, gallwn dybio na wnaeth yr agwedd hon ar y rhaglen gyfraniad sylweddol at dargedau Cymraeg 2050. Yn ôl y darparwyr hyfforddiant a gyfwelwyd, nid oedd unrhyw faterion penodol gyda chyflwyno cymwysterau yn Gymraeg gan fod ganddynt hyfforddwyr ac aseswyr gyda sgiliau Cymraeg, fodd bynnag, nodwyd bod amharodrwydd ymhlith rhai cyfranogwyr mewn perthynas ag ymgymryd ag asesiadau ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg.

Tystiolaeth gan Ddarparwyr Hyfforddiant

- 5.41 Gofynnwyd i ddarparwyr hyfforddiant rannu astudiaethau achos gyda Llywodraeth Cymru i ddangos eu bod wedi cyflawni'r themâu trawsbynciol. Rhannwyd saith astudiaeth achos ddiennw a dderbyniwyd gan ddarparwyr hyfforddiant gyda'r tîm gwerthuso. Roedd y rhain ar ffurf dogfennau hyd at un dudalen yn disgrifio cefndir PfS, yr ymgysylltiad â dysgwyr ac unrhyw enghreifftiau o arfer da, gwersi a ddysgwyd a deilliannau. Rhannwyd dyfyniadau o astudiaethau achos hefyd yn uniongyrchol gan rai darparwyr hyfforddiant.
- 5.42 Mae'r astudiaethau achos yn nodi pwyntiau sy'n ymwneud â chynnydd a deilliannau themâu trawsbynciol, sef, datblygu cadwyn gyflenwi leol, gweithgarwch i gefnogi cymheiriaid mewn perthynas â'r Gymraeg, mesurau'n ymwneud ag effeithlonrwydd adnoddau, mentora, a chymau gweithredu cadarnhaol ar gyfer pobl anabl:
- Datblygu Cadwyni Cyflenwi Leol:
 - Roedd y rhaglen yn cefnogi darparwyr i ennill achrediadau angenrheidiol drwy drefniadau gweithio mewn partneriaeth ac is-gontractio.

- Roedd darparwyr yn gallu cynyddu nifer eu staff i fodloni gofynion contract, gan gyfrannu at ddatblygu cadwyn gyflenwi leol.
- Ehangu'r gystadleuaeth a'r farchnad drwy ymarferion caffael teg sy'n cyd-fynd â mentrau polisi Llywodraeth Cymru.
- Gweithgarwch i Gefnogi Cymheiriaid:
 - Roedd cynnwys dysgwyr mewn trafodaethau grŵp a gweithdai yn annog syniadau ac ymddygiad i gefnogi hawliau a chwarae plant. Amlygodd trafodaethau wahaniaethau mewn mynediad i gyfleoedd chwarae yn seiliedig ar nodweddion cymunedol. Roedd dysgwyr yn cydnabod effaith negyddol y pandemig ar iechyd meddwl plant a'r angen am gyfleoedd chwarae rhydd. Bu hyfforddiant o gymorth i ddysgwyr roi egwyddorion gwaith chwarae ar waith a chynyddu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd chwarae.
- Mesurau'n Ymwneud ag Effeithlonrwydd Adnoddau:
 - Roedd dulliau cyflenwi hyblyg, gan gynnwys e-ddysgu, yn lleihau'r ôl troed carbon a'r costau sy'n gysylltiedig â theithio ac argraffu.
 - Roedd dysgu ar-lein yn sicrhau cynwysoldeb a'r gallu i addasu i amserlenni'r cyfranogwyr ac ymrwymadau eraill.
 - Roedd defnyddio dulliau cyflwyno hyblyg a dysgu ar-lein yn lleihau amser y cwrs gan gynnal effeithiolrwydd.
- Cefnogi'r Gymraeg:
 - Roedd y cymwysterau i gyd ar gael i'w cyflwyno yn Gymraeg/Saesneg neu'n ddwyieithog. Roedd un astudiaeth achos yn disgrifio sut y cydweithiodd rhanddeiliaid i addasu Dyfarniad Lefel 3 Trawsnewid i Waith Chwarae er mwyn ei gyflwyno yn Gymraeg/Saesneg neu'n ddwyieithog.
 - Neilltuwyd hyfforddwyr Cymraeg eu hiaith i ddysgwyr a chawsant gymorth ychwanegol ar gyfer datblygu eu sgiliau Cymraeg.
 - Mae darparu cymwysterau yn y Gymraeg yn cefnogi Cymraeg 2050.
- Mentora / Camau Cadarnhaol ar gyfer Pobl Anabl. Daeth un astudiaeth achos i law o dan y thema hon, yn dangos y gefnogaeth a ddarparwyd i unigolyn y disgrifiwyd bod ganddo broblemau iechyd emosiynol.
 - Mae cymorth ychwanegol, gan gynnwys cymorth emosiynol ac ymarferol, wedi helpu dysgwr â phroblemau iechyd personol ac emosiynol i gwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus.

- Parhaodd y dysgwr i ddatblygu ei ddull gwaith chwarae a gwneud newidiadau cadarnhaol yn ei fywyd personol a'r amgylchedd chwarae.
- Cyfrannodd yr hyfforddiant at well hyder, hunan-barch, iechyd emosiynol, a gallu'r dysgwr i greu mannau chwarae cynhwysol.
- Mentora a Goresgyn Rhwystrau i Ddysgu:
 - Roedd dysgwyr a oedd yn ansicr am y cwrs i ddechrau wedi'i gael yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol ar ôl ei roi ar waith.
 - Drwy roi damcaniaethau gwaith chwarae ar waith, crëwyd gwell cyfleoedd chwarae i blant gan gyd-fynd â'r newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm.
 - Adroddodd dysgwyr am effeithiau cadarnhaol ar eu hymarfer a gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd chwarae.

6. Gwerth am arian

6.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried gwerth am arian y rhaglen PfS, yn seiliedig ar ddata a thystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad. Mae'n rhoi sylwadau ar y gost gyffredinol fesul cyfranogwr sy'n gysylltiedig â'r rhaglen, gan gymharu hyn â'r costau wedi'u targedu a nodir yn y Cynllun Busnes ar ei newydd wedd. Mae hefyd yn gosod hyn yng nghyd-destun y manteision ehangach a'r gwerth canfyddedig a adroddwyd gan y rhai a gyfrannodd at y gwerthusiad. Yn olaf, mae'n nodi'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag asesu gwerth am arian y rhaglen PfS, gan gynnwys mewn perthynas ag amcangyfrif di-fuddiant a dadleoli.

Cost fesul cyfranogwr

6.2 Roedd y Cynllun Busnes ar gyfer y rhaglen ar ei newydd wedd yn cynnwys gwybodaeth am werth am arian PfS yn seiliedig ar y gost gyfartalog fesul cyfranogwr. Y bwriad o dan yr ymgyrch ar ei newydd wedd oedd uwchsgilio 2,849 o ymarferwyr yn ystod y rhaglen gyfan o weithgarwch rhwng mis Awst 2016 a mis Mawrth 2023. Cyfanswm y gwariant cymeradwy wedi'i ailbroffilio ar gyfer y gweithrediad oedd £6,901,894. Gan ddefnyddio'r ffigurau hyn, cyfeiriodd y Cynllun Busnes at gost gyfartalog ragamcanol o £2,423 i gyfranogwyr. Nododd y Cynllun Busnes hefyd: *gan gymryd cyfradd ymyrraeth o 68.03%, bod hyn yn cyfateb i gost o £1,648 fesul cyfranogwr o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.*

6.3 Arweiniodd y nifer lai o ymarferwyr a gafodd gymorth drwy'r rhaglen yn y pen draw (1,063 yn ystod y cyfnod 2016-2023) ynghyd â'r cyfanswm gwariant is, at gost gyfartalog uwch o £3,115 fesul cyfranogwr.

6.4 Os mai dim ond gwariant ESF a gynhwysir yn y cyfrifiad, yna y gost gyfartalog fesul cyfranogwr yw £1,056, sy'n is na'r gost ragamcanol fesul cyfranogwr o gyllid Ewropeaidd fel y nodir yn y Cynllun Busnes ar gyfer y rhaglen ar ei newydd wedd (£1,648). Mae hyn oherwydd costau ESF sylweddol is yn ystod y rhaglen. Mae Tabl 6.1 yn crynhoi'r prosiect a'r costau cyfartalog gwirioneddol fesul cyfranogwr drwy PfS.

6.5 Mae'n bwysig nodi'n fyr y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r dadansoddiad lefel uchel hwn. Yn fyr:

- Nid yw'r costau rhagamcanol a gwirioneddol fesul cyfranogwr yn gwahaniaethu rhwng cyfranogwyr a gafodd gymorth drwy'r prentisiaethau a'r llwybrau Llwybr at

Chwarae. Mae'n anochel y bydd y costau fesul cyfranogwr yn uwch ar gyfer y rhai a gwblhaodd brentisiaeth o dan y rhaglen o gymharu â'r rhai a gwblhaodd gysiau byrrach. Felly mae'r costau amcangyfrifedig cyffredinol yn cuddio'r hyn sy'n debygol o fod yn amrywiadau mawr mewn costau fesul cyfranogwr ar draws y gwahanol lwybrau.

- Mae'r cyfrifiadau'n berthnasol i PfS dros y cyfnod o fis Awst 2016 i fis Mawrth 2023 ac felly nid ydynt yn gwahaniaethu rhwng y rhaglen PfS wreiddiol (2016-2019) a'r rhaglen ar ei newydd wedd o 2019 ymlaen.³⁸

Tabl 6.1: Costau cymeradwy a gwirioneddol (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd)

	Cyfanswm costau cymeradwy'r rhaglen	Ymarferwyr wedi'u targedu	Cost gyfartalog ragamcanol y cyfranogwr	Cost wirioneddol fesul cyfranogwr o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd³⁹
Costau Rhagamcanol	£6,901,894	2,849	£2,422.57	£1,647.97
	Cyfanswm Gwariant Cymwys	Cyfanswm yr ymarferwyr a gefnogwyd	Cost gyfartalog fesul cyfranogwr (gwirioneddol)	Cost wirioneddol fesul cyfranogwr o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd⁴⁰
Costau Gwirioneddol	£3,311,680.68	1,063	£3,115.41	£1,056.44
% y gwariant a dargedwyd / cyfranogwyr	47.9%	37.3%		

Ffynhonnell: Hawliad Terfynol Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd i WEFO, Mai 2023

³⁸ Dim ond ffigurau gwariant dros y cyfnod 2016-2023 oedd ar gael i'r tîm gwerthuso ac nid gwariant y flwyddyn. Felly mae'r cyfrifiadau yn yr adran hon yn seiliedig ar wariant a chyfranogwyr PfS dros y cyfnod 2016-2023.

³⁹ Yn seiliedig ar gyfradd ymyrraeth ragamcannol y rhaglen o 68.03%, gyda chyfanswm costau ESF o £4,695,088.06.

⁴⁰ Yn seiliedig ar gyfradd ymyrraeth gwirioneddol y rhaglen o 33.91%, gyda chyfanswm costau ESF o £1,123,002.83

- 6.6 Roedd y Cynllun Busnes yn nodi bod y model cyflawni diwygiedig ar gyfer ail fersiwn y rhaglen wedi'i gynllunio i sicrhau gwell gwerth am arian. Roedd cynnwys cyrsiau byrrach ar gyfer trawsnewid i waith chwarae o 2019 ymlaen fel rhan o'r rhaglen yn ffordd effeithlon o ddiwallu anghenion y sector.
- 6.7 O ystyried natur y rhaglen (a'r llwybrau lluosog a gynhwysir ynddi), mae meincnodi cost gyfartalog cyfranogwr PfS gyda mentrau tebyg yn broblem. Mae astudiaethau eraill wedi archwilio costau cyffredinol darparu prentisiaethau: cyfrifodd astudiaeth a gynhaliwyd ar ran y Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol⁴¹ gostau 54 o brentisiaethau ac amcangyfrif mai cyfanswm y gost gymedrig oedd £7,101 (ar draws pob safon a phob lefel). Roedd y costau hyn yn amrywio fesul llwybr (sector), gyda chost gymedrig prentisiaeth mewn addysg neu ofal plant (y llwybr sy'n cyfateb agosaf i'r llwybr prentisiaeth o dan PfS) wedi'i chyfrifo fel £5,761. Mae'r costau hefyd yn amrywio'n fawr yn ôl lefel prentisiaeth, gyda chost gymedrig prentisiaeth lefel 2 o £5,371 a chost amcangyfrifedig gyfatebol o £6,815 ar lefel 3 (er bod y rhain yn seiliedig ar y cyfartaledd ar draws pob llwybr ac nid ydynt yn adlewyrchu'r costau prentisiaeth mewn addysg a gofal plant yn benodol).
- 6.8 Ymddengys fod hyn yn dangos bod PfS yn cynrychioli gwerth cadarn am arian o ran y gost fesul cyfranogwr, yn enwedig wrth ystyried y costau a dynnwyd i lawr o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Roedd y dull a ddefnyddiwyd i gomisiynu darpariaeth drwy ymarferion tendro cystadleuol hefyd yn golygu bod costau a risgiau'n cael eu rhannu ar draws darparwyr hyfforddiant masnachol, a oedd yn cael eu had-dalu yn seiliedig ar gyfanswm y cyfranogwyr a ddilynodd ac a gwblhaodd gymwysterau o dan y rhaglen.

Gwerth canfyddedig y rhaglen

- 6.9 Roedd data ansoddol a gasglwyd ac a gyflwynwyd yn adrannau cynnar y bennod hon yn ystod y gwerthusiad yn dangos ystod o fanteision canfyddedig y rhaglen i gyflogwyr, i ymarferwyr ac o ran proffil y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Manteision i gyflogwyr:
 - Gweithlu mwy cymwys gyda mwy o wybodaeth am sut i gynllunio a chyflwyno sesiynau gofal plant a chwarae priodol;

⁴¹ [Cost of delivering apprenticeship standards \(instituteforapprenticeships.org\)](http://instituteforapprenticeships.org)

- Cyfleoedd i ehangu ac amrywio eu harlwy gofal plant a chwarae;
 - Gweithlu sy'n bodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol;
 - Ymgysylltiad rhwng lleoliadau a darparwyr hyfforddiant.
- Y manteision i weithwyr gofal plant a gwaith chwarae:
 - Cynnydd mewn gwybodaeth a sgiliau;
 - Cymwysterau lefel uwch;
 - Cyfleoedd i ymgymryd â chyfrifoldebau neu rolau ychwanegol;
 - Mwy o ymwybyddiaeth o egwyddorion ac ymarfer effeithiol yn ymwneud â chynllunio a chyflwyno gwaith chwarae.
- Ar gyfer y sector gofal plant a gwaith chwarae
 - Buddsoddi mewn uwchsgilio'r gweithlu, gwella proffesiynoldeb y sector a chefnogi cadw staff a llwybrau gyrfa.

Difuddiant

- 6.10 Dim ond dadansoddiad rhannol o effeithiau di-fuddiant sy'n bosibl yn seiliedig ar ddata a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad. Sail y dadansoddiad hwn yw data ansoddol a gasglwyd yn ystod cyfweiliadau ag ymarferwyr a chyflogwyr. Gall y gwerthusiad gynnig rhai atebion petrus i'r cwestiwn a fyddai'r deilliannau a'r effeithiau a gyflawnwyd gan PfS wedi cael eu gwireddu yn absenoldeb y rhaglen.
- 6.11 Pe na bai PfS wedi bod ar gael fel modd o gefnogi lleoliadau gofal plant a chwarae i uwchsgilio'r gweithlu, byddai'r angen i leoliadau gydymffurfio â gofynion cymwysterau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol wedi ysgogi lleoliadau i wneud trefniadau i ymarferwyr ymgymryd â chymwysterau gwaith chwarae. Pan ofynnwyd iddynt am eu cymhelliant i ymgysylltu â PfS, dywedodd mwyafrif yr ymarferwyr eu bod yn dilyn cwrs oherwydd bod eu cyflogwr wedi awgrymu hynny neu wedi rhoi cyfarwyddyd iddynt wneud hynny, er mwyn bodloni'r gofynion sylfaenol mewn perthynas â chymwysterau. Felly, mae'n rhesymol tybio y byddai llawer o'r rhai a ddilynodd ac a gwblhaodd gymwysterau wedi ymgymryd â'r un cymwysterau neu gymwysterau tebyg drwy lwybrau eraill os oeddent ar gael.

- 6.12 Heb y cyllid a oedd ar gael drwy PfS i dalu costau'r cymorth a'r cymwysterau mae'n debygol y byddai hyn wedi cymryd mwy o amser, y byddai llai wedi cymryd rhan ac y byddai lleoliadau/cyflogwyr yn fwy cyndyn o ryddhau staff i ymgymryd â'r cymwysterau. Serch hynny, gallwn dybio bod difuddiant sylweddol yn gysylltiedig â'r deilliannau a gyflawnwyd drwy PfS o ran y cymwysterau a enillwyd.
- 6.13 Yn y rhan fwyaf o achosion, nododd yr ymarferwyr a gyfwelwyd nad oedd eu rôl wedi newid o ganlyniad i ddilyn neu ennill cymhwyster newydd drwy'r rhaglen (er bod rhai wedi nodi eu bod wedi cael cyfleoedd i ymgymryd â rolau rheoli neu oruchwylio ychwanegol). Mae hyn yn awgrymu nad oedd unrhyw effaith nodedig ar enillion o ganlyniad uniongyrchol i'r rhaglen. Byddai data arolwg ar enillion cyn ac ar ôl cwblhau cymwysterau wedi ein galluogi i asesu effaith y rhaglen ar enillion, y gellid dadansoddi effeithiau difuddiant yn ei erbyn. Dylai unrhyw werthusiadau yn y dyfodol o raglenni tebyg sy'n anelu at uwchsgilio ymarferwyr yn y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae gynnwys casglu manylion cyswllt ar gyfer cyflogwyr – gan gynnwys eu caniatâd i gysylltu â nhw – fel amodau cymryd rhan yn y rhaglen fel rhan o'r dyluniad cychwynnol.

Dadleoli

- 6.14 Mae dadansoddi effeithiau PfS mewn perthynas â dadleoli yn golygu archwilio a gafodd y deilliannau a'r effeithiau a gyflawnwyd eu gwrthbwysu gan leihad mewn gweithgarwch mewn meysydd eraill, e.e. a oedd ymgymryd â chymhwyster a gefnogwyd drwy PfS yn golygu nad oedd ymarferwyr wedi mynd ar drywydd cymwysterau eraill a ddarparwyd drwy lwybrau amgen? Ychydig o dystiolaeth a ganfu'r gwerthusiad fod dilyn cymwysterau a ariannwyd gan PfS yn atal ymarferwyr rhag cwblhau cyrsiau eraill wedi'u cynllunio neu gyfleoedd datblygu proffesiynol. PfS oedd y prif gyfrwng ar gyfer darparu'r cymwysterau yr oedd yn eu hariannu. O'r herwydd, prin oedd y cyfleoedd a gafodd cyflogwyr a gweithwyr i gael mynediad at gyrsiau cyfatebol wedi'u hariannu'n llawn.

7. Astudiaethau achos

7.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno cyfres o astudiaethau achos sy'n rhoi golwg fanylach ar brofiadau cyfranogwyr a chyflogwyr sy'n ymwneud â PfS. Yn seiliedig ar gyfweiliadau manwl, mae'r astudiaethau achos hyn yn rhoi eu barn ar y cymwysterau a ddilynwyd a'u canfyddiadau o'r gwahaniaeth a wnaeth PfS iddyn nhw a'u lleoliadau. Mae ffugenwau wedi'u rhoi i bawb a gymerodd ran yn yr astudiaethau achos.

7.2 Cyflwynir dwy astudiaeth o'r elfen prentisiaeth:

'Gemma' - Cwblhaodd Gemma y cwrs CCPLD lefel 2 tra roedd hi'n gweithio mewn canolfan blant ar gontract dim oriau. Cynigiwyd cytundeb 27 awr yr wythnos iddi ar ôl iddi gwblhau'r cwrs.

'Sophie' - Cwblhaodd Sophie CCPLD lefel 3 tra roedd hi'n gweithio'n rhan-amser mewn meithrinfa. Roedd gan Sophie bryderon y byddai'r cwrs yn ailadrodd gwybodaeth yr oedd hi eisoes wedi'i dysgu yn ystod ei gradd, ond canfu ei fod yn gwrs gloywi defnyddiol. Teimlai Sophie hefyd y dylid ymestyn hyd y cwrs er mwyn caniatáu digon o amser i gwblhau'r gwaith cwrs.

7.3 Cyflwynir dwy enghraifft arall o astudiaethau achos gan y rhai a gymerodd ran yn yr elfen Llwybr at Chwarae:

'Emma' – Cwblhaodd Emma gwrs lefel 3 Llwybr at Chwarae a pharhaodd i weithio mewn meithrinfa drwy gydol y cwrs. Roedd profiadau Emma o ymgymryd â'r cymhwyster yn gadarnhaol a theimlai fod ei hyder fel ymarferydd wedi cynyddu.

'Diana' – Cwblhaodd Diana gwrs lefel 3 Llwybr at Chwarae ac eglurodd fod ei phrofiadau o weithio fel cynorthwydd addysgu yn ddefnyddiol ar gyfer ymgymryd â'r cymhwyster. Rhannodd Diana ei phryderon ynghylch hyd y cwrs gan ei bod yn teimlo nad oedd digon o amser i gwblhau'r gwaith. Teimlai hefyd fod cynnwys y cwrs yn ailadroddus.

7.4 Mae dwy astudiaeth achos hefyd yn cael eu cyflwyno o safbwynt cyflogwyr, un a oedd yn goruchwylio staff a oedd yn ymgymryd â'r elfen prentisiaeth, ac un arall a oedd yn goruchwylio staff a oedd yn dilyn y cymhwyster Llwybr at Chwarae.

'Joanna' – Mae Joanna yn rheolwraig brofiadol ar feithrinfa y mae hi wedi bod yn gweithio ynddi ers bron i 10 mlynedd. Cwblhaodd pedwar aelod o staff Joanna yr elfen prentisiaeth. Mae'n teimlo bod y cwrs wedi bod yn fuddiol ac wedi rhoi ymdeimlad newydd o hyder i'w gweithwyr fel ymarferwyr.

'Caryl' - mae Caryl hefyd yn rheolwraig meithrinfa, a chwblhaodd pum aelod o'i staff y cymhwyster Llwybr at Chwarae. Dywed fod y cwrs wedi dysgu sgiliau newydd i'w staff, a'u bod bellach yn gallu addasu eu gofal i blant unigol. Yn sgil hynny, roedd y gofal cyffredinol a ddarperir yn ei meithrinfa wedi gwella.

Yr Efen Prentisiaeth: Astudiaethau Achos

Astudiaeth achos 1: 'Gemma'

Llwybr: Lefel 2 CCPLD

Cyflawnwyd: Do

Cyflwyniad:

Mae Gemma yn gweithio mewn canolfan blant. Cyn cael y swydd hon, bu'n gwirfoddoli yn y ganolfan, ac yn ystod y cyfnod hwnnw dilynodd gwrs lefel 1 mewn gofal plant. Yna cynigiwyd contract dim oriau iddi cyn cael cynnig cytundeb parhaol, 27 awr yr wythnos. Clywodd am y cwrs drwy'r darparwr hyfforddiant. Roedd yr asesydd yn gweithio gyda rhai o'i chydweithwyr yn y ganolfan blant a siaradodd â'i rheolwr am ymgymryd â'r cymhwyster ac yna fe wnaeth y rheolwr drafod a threfnu hyn gyda'r asesydd. 'Roedd yn rhywbeth roeddwn i eisiau ei wneud i wella fy hun'.

Barn ynghylch y Cymhwyster CCPLD:

Roedd cynnwys y cwrs yn 'ddiddorol iawn' ym marn Gemma. Teimlai ei bod wedi cael digon o amser i wneud y gwaith cwrs ond nododd bod yn rhaid iddi wneud y gwaith cwrs gartref yn ei hamser ei hun. Oherwydd Covid-19 ni allai ei hasesydd ddod i ymweld â'i lleoliad, felly roedd yn cyfathrebu â'i hasesydd dros Zoom, a dywedodd fod hynny 'ddim yn ddelfrydol'.

Y gefnogaeth a gafwyd tra'n ymgymryd â'r cymhwyster:

Roedd yn fodlon ar y gefnogaeth a gafodd gan ei chydweithwyr a'i hasesydd. 'Dim ond anfon e-bost cyflym at fy asesydd oedd rhaid os oeddwn i'n cael trafferth gyda rhan o'r gwaith cwrs. Roedd rhywun wastad yno ar ben arall y ffôn neu yno i mi gael sgwrs â nhw.'

Effaith ymgymryd â'r cymhwyster:

Mae'r cymhwyster Lefel 2 wedi gwella gwybodaeth Gemma mewn perthynas â datblygiad plant a cherrig milltir. Esboniodd fod hyn wedi gwella ei hyder, yn enwedig wrth siarad â rhieni am ddatblygiad eu plentyn. Fe wnaeth ymgymryd â'r cymhwyster Lefel 2 alluogi Gemma i symud ymlaen i Lefel 3. Yna, bydd y cymhwyster Lefel 3 yn golygu y bydd yn gallu gweithio heb oruchwyliaeth, er enghraifft, cynnal sesiynau a newid cewynnau babanod.

'Roedd Lefel 2 yn garreg gamu i mi, fe wnaeth fy ngalluogi i fynd ymlaen i wneud Lefel 3. Roedd gwybod bod gen i gymhwyster Lefel 2 wedi rhoi hwb ychwanegol i mi. Felly, meddyliais 'iawn, ymlaen â fi at lefel 3 ar unwaith.' Achos mae popeth yn ffres yn fy nghof. Yna gallwn i gael cymhwyster ychwanegol a gwella fy hun.'**Cyfranogwr Cwrs**

Astudiaeth achos 2: 'Sophie'

Llwybr: Lefel 3 CCPLD

Cyflawnwyd: Do

Cyflwyniad:

Tra roedd hi'n dilyn y cwrs CCPLD, roedd Sophie yn gweithio'n rhan-amser mewn meithrinfa ochr yn ochr ag astudio ar gyfer ei gradd mewn plentyndod cynnar. Ers gorffen y cwrs a'i hastudiaethau mae wedi symud i Loegr, lle mae wedi parhau i weithio yn y sector gofal plant.

Clywodd am y cwrs drwy ei rheolwr ar y pryd, a ddywedodd wrthi fod y cwrs CCPLD yn orfodol er mwyn parhau i weithio yng Nghymru. Oni bai am hynny, dywed Sophie na fyddai wedi cofrestru ar gyfer y cwrs gan ei bod eisoes wedi ennill cymhwyster lefel 6 fel rhan o'i gradd.

Barn ynghylch y Cymhwyster CCPLD:

Roedd Sophie'n poeni y byddai'r cwrs yn 'gam yn ôl', ar ôl cwblhau lefel 6, ond fe wnaeth fwynhau cynnwys y cwrs yn fawr ac roedd hi'n teimlo ei bod yn ddefnyddiol adolygu pethau eto. Roedd hi hefyd yn mwynhau'r ffaith bod elfennau o'r cwrs yn ddwyieithog ac yn rhoi cyfle iddi wella ei Chymraeg.

Dywedodd Sophie ei bod yn teimlo bod y cwrs yn 'cael ei ruthro' ar brydiau a theimlai y gallai fod wedi cael ei ymestyn.

Y gefnogaeth a gafwyd tra'n ymgymryd â'r cymhwyster:

Roedd Sophie yn teimlo nad oedd ganddi ddigon o amser i ddysgu cynnwys y cwrs a theimlai ei fod yn cael ei ruthro ar adegau. Fodd bynnag, roedd hi'n teimlo ei bod yn cael ei chefnogi'n llawn gan yr asesydd a roddodd estyniadau iddi ar rai o'r aseiniadau, gan ddweud bod modd ymdopi â'r cwrs gyda'r cymorth ychwanegol hwn.

Effaith ymgymryd â'r cymhwyster:

Teimlai fod y cwrs yn wedi cadarnhau'r rheswm pam ei bod am aros yn y sector gofal plant, a bod ei hyder wedi cynyddu ers cwblhau'r cymhwyster. Disgrifiodd y gallu i ganiatáu i blant chwarae'n annibynnol a gwybod pryd i ymyrryd a phryd i'w gadael ar eu pen eu hunain, gan roi'r plentyn yng nghanol y gwaith chwarae.

'Mae cwblhau'r cymhwyster wedi gwella fy ngwybodaeth am y maes gofal plant ac wedi fy atgoffa pam roeddwn i eisiau gweithio mewn gofal plant yn y lle cyntaf. Fe wnaeth i mi fod eisiau aros yn y sector.' **Cyfranogwr cwrs**

Llwybr at Chwarae: Astudiaethau Achos

Astudiaeth achos 3: 'Emma'

Llwybr: Llwybr at Chwarae

Cyflawnwyd: Do

Cyflwyniad:

Mae Emma yn gweithio fel cynorthwydd mewn meithrinfa, sef yr un rôl ag yr oedd ganddi tra roedd hi'n ymgymryd â'r cymhwyster. Mae'n gweithio oriau amser llawn, ac felly wedi bod yn gweithio ar y cymhwyster gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Roedd Emma eisiau dilyn y cwrs gan fod rhai o'i chydweithwyr eisoes wedi ei gwblhau. Fe wnaeth ei rheolwr hefyd ei hannog i gofrestru.

Barn ynghylch y Cymhwyster Llwybr at Chwarae:

Profiad cadarnhaol iawn, ac yn fodlon ar y ffordd y cafodd ei gyflwyno. Oherwydd Covid-19, cyflwynwyd y cwrs ar Zoom, ond nid oedd hynny'n poeni Emma gan ei fod yn golygu llai o amser teithio. Fodd bynnag, mae'n meddwl y bydd cyrsiau'r dyfodol yn well o gael eu cynnal wyneb yn wyneb, gan iddi gollu'r agwedd gymdeithasol ar ddilyn y cwrs.

Mwynhaodd Emma gynnwys y cwrs gan ei ddisgrifio fel 'diddorol iawn'. Roedd hi'n hapus gyda'r ffordd y cafodd ei addysgu, a theimlai ei fod yn hawdd ei ddilyn ac yn hawdd cofio'r wybodaeth.

Effaith ymgymryd â'r cymhwyster:

Mae Emma'n teimlo bod y cwrs wedi ei gwneud hi'n fwy hyderus fel ymarferydd ac wedi rhoi mwy o ddealltwriaeth iddi o'i rôl fel gweinyddes feithrin. Mae hi'n disgrifio gallu rhoi mwy o ryddid i blant tra maen nhw'n chwarae, gan ei bod hi'n teimlo'n oramddiffynnol o'r blaen. Mae'r cwrs wedi rhoi'r hyder iddi adael i'r plant fod yn fwy annibynnol.

'Nawr gallaf sefyll yn ôl a chaniatáu i'r plant wneud mwy o bethau heb gamu i mewn drwy'r amser, felly rwy'n gadael iddynt ddringo coed ychydig yn uwch neu adael iddynt fynd yn fwdlyd pan fyddan nhw'n chwarae y tu allan. Mae fy hyder wedi cynyddu ers i mi ddilyn y cwrs.' **Cyfranogwr cwrs**

Astudiaeth Achos 4: 'Diana'

Llwybr: Llwybr at Chwarae

Cyflawnwyd: Do

Cyflwyniad:

Mae Diana yn arweinydd chwarae mewn clwb ar ôl ysgol a dilynodd gwrs Trawsnewid i Waith Chwarae Lefel 3 er mwyn cofrestru'r clwb gydag AGC – roedd wedi bod yn gweithio yn y clwb ers pum mlynedd, ond nid oedd wedi'i gofrestru felly roedd yn gyfyngedig o ran yr oriau y gallai eu cynnig.

Clywodd am y cwrs drwy ddarparwr y cwrs ac roedd yn hawdd cofrestru ar ei gyfer. Fodd bynnag, roedd swm y gwaith yn fwy na'r disgwyl, gyda chyfartaledd o 10 awr o waith yr wythnos am bedwar mis, a oedd yn ailadroddus, yn cynnwys llawer o arsylwi ac ysgrifennu.

Dylanwadodd ei chefnidir fel cynorthwydd addysgu ar ei dull blaenorol o ymdrin â risg a dysgodd lawer am chwarae yn ystod y cwrs, ond weithiau roedd yn ei chael hi'n anodd darbwylo'r ymddiriedolwyr i dderbyn egwyddorion chwarae.

Barn ynghylch y Cymhwyster Llwybr at Chwarae:

Awgrymodd Diana y gallai'r cwrs fod yn hwy neu'n llai ailadroddus, ond llwyddodd i gwblhau'r cwrs erbyn y dyddiad cau ym mis Medi.

Mae hefyd yn tynnu sylw at eiriolaeth dros ddulliau chwarae a'r hyder a gafodd o'r cymhwyster wrth ei drafod ag eraill. Fodd bynnag, roedd cyfyngiadau ar faint y gallent hyrwyddo chwarae heb darfu ar y cydbwysedd. Soniodd fod y baich gwaith yn sylweddol ac awgrymodd y byddai'n well pe bai'n hirach i ddarparu ar gyfer y rhai â swyddi amser llawn. Roedd y gwaith arsylwi yn cymryd llawer o amser, yn enwedig yr ysgrifennu, y cysylltu, ac amlygu lleoedd, ac roedd yn "ysgrifennu cwpwl o filoedd o eiriau yr wythnos yn her". Er ei bod yn mwynhau dysgu, roedd y llwyth gwaith 'yn dal i fod yn drwm'.

Y gefnogaeth a gafwyd tra'n ymgymryd â'r cymhwyster:

Teimlai Diana fod diffyg cefnogaeth gan y darparwr hyfforddiant ac roedd yn cael ei chyndeiriogi pan oedd angen diwygio aseiniadau oherwydd mân broblemau a gorfod eu hailgyflwyno. Fodd bynnag, roedd yn teimlo ei bod yn cael ei chefnogi'n llawn gan ei chyflogwyr yn yr ysgol y bu'n gweithio ynddi.

Effaith ymgymryd â'r cymhwyster:

Mae Diana'n teimlo bod y cwrs wedi rhoi'r sgiliau iddi allu rhoi'r plentyn yng nghanol gwaith chwarae ac ymyrryd dim ond pan fo angen. Mae'n teimlo bod y cwrs wedi cynyddu ei hyder i ganiatáu i'r plant fod yn fwy annibynnol ac arwain eu gweithgaredd chwarae eu hunain, ac felly mae'n teimlo ei bod yn ymarferydd gwell.

Ystyriodd Diana ddilyn cwrs lefel 5, ond mae hi eisiau blaenoriaethu ei hymrwymadau yn y gwaith a bydd yn cwblhau lefel 5 pan fydd ganddi fwy o amser.

*'Rwyf wedi sylwi bod fy ymarfer yn wahanol bellach. Rwy'n gwneud llawer mwy o adael iddyn nhw (y plant) gyfarwyddo'r chwarae, nid fi. Mae'n hwyl, maen nhw'n cael profiad gwell wedyn'. **Cyfranogwr Cwrs***

Cyflogwr, Astudiaeth Achos Prentisiaeth

Astudiaeth Achos 5: 'Joanna'

Rôl: Cyflogwr

Cyflwyniad:

Mae Joanna yn gweithio fel rheolwr mewn meithrinfa ac mae ei chyfrifoldebau yn cynnwys edrych dros bolisiâu a gwerthusiadau staff ac mae wedi gweithio yn y feithrinfa ers bron i 10 mlynedd. Cyflawnodd pedwar aelod o staff Joanna y cwrs CCPLD, bob un ohonynt yn gweithio oriau rhan amser. Ers cwblhau'r cwrs, mae'r staff wedi aros yn yr un rolau. Esboniodd Joanna, oherwydd mai meithrinfa fach yw hi, nad oes cyfle i newid rolau na chynnig dyrchafiadau.

Rhesymau dros ofyn i'r staff ddilyn y cymhwyster:

Clywodd Joanna am y cwrs am y tro cyntaf ar ôl y newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, a dyma wnaeth ei hysgogi i wneud ei hymchwil ei hun i gymwysterau. Mae'n nodi mai bodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer nifer y staff cymwys oedd ei phrif resymau dros ofyn i'w staff ymgymryd â'r cymhwyster. Teimlai hefyd, oherwydd ei fod yn dîm bach mewn ardal wledig, y byddai'n fuddiol iddynt i gyd fod yn gymwys rhag ofn y byddai absenoldebau. Ychwanegodd Joanna y gall adael unrhyw un o'i staff â gofal yn ei habsenoldeb yn hyderus oherwydd eu bod i gyd wedi cymhwyso.

A yw ymgymryd â'r cymhwyster wedi cynyddu gwybodaeth a sgiliau'r staff:

Ers ymgymryd â'r cymhwyster, mae Joanna'n meddwl bod ei staff wedi dod yn fwy hyderus o ran eu hymarfer ac yn gallu rhannu eu barn o fewn y lleoliad gwaith. Mae'n esbonio nad oedd y staff yn teimlo eu bod yn aelodau defnyddiol o'r tîm cyn y cwrs o gymharu â'u cydweithwyr a oedd wedi cwblhau'r brentisiaeth. Fodd bynnag, ers cwblhau'r cwrs, maent bellach yn teimlo'n fwy hyderus ynddynt eu hunain ac fel rhan o'r tîm.

"Fe wnaeth y cwrs iddyn nhw feddwl ychydig mwy a meddwl y tu allan i'r bocs. Dydw i ddim yn meddwl y bydden nhw wedi gallu gwneud hyn cyn cwblhau'r cymhwyster. Ond rwy'n addysgu llawer yn y swydd, felly drwy gyfuniad o'r cwrs a'r hyn maen nhw'n ei ddysgu gen i, do, fe wnaethon nhw wella eu gwybodaeth a'u sgiliau". **Cyflogwr**

Astudiaeth Achos 6: 'Caryl'

Rôl: Cyflogwr

Cyflwyniad:

Mae Caryl yn rheolwr meithrinfa sy'n goruchwyllo gweithgareddau o ddydd i ddydd a hefyd yn gweithio ochr yn ochr â staff y feithrinfa i ofalu am y plant. Cyflawnodd pum aelod o staff Caryl y cymhwyster Trawsnewid i Waith Chwarae, pob un ohonynt yn gweithio oriau amser llawn. Ers cwblhau'r cymhwyster, mae 4 wedi aros yn yr un rôl ag yr oeddent ynddi cyn ymgymryd â'r cwrs, a chafodd 1 ddyrchafiad i fod yn oruchwyliwr. Ynglŷn â'r dyrchafiad, eglurodd Caryl, er na wnaeth y cwrs arwain yn uniongyrchol at hynny, ei fod yn gyfraniad gwerthfawr serch hynny.

Rhesymau dros ofyn i'r staff ddilyn y cymhwyster:

Rhannodd tiwtoriaid a oedd wedi gweithio gyda'r feithrinfa ar gyrsiau blaenorol wybodaeth am gymwysterau Llwybr at Chwarae i Caryl a staff y feithrinfa. Pe na baent wedi gweithio gyda'r darparwr hyfforddiant o'r blaen, noda Caryl nad yw'n meddwl y byddai wedi clywed am y cymhwyster Llwybr i Chwarae.

Roedd Caryl eisiau i'w staff gwblhau'r cymhwyster er mwyn iddynt gael gwybodaeth am grwpiau oedran penodol, gan nad yw cyrsiau eraill yn addysgu am grwpiau o blant o oedran hŷn. Yn ogystal â hynny, nid oedd rhai aelodau o staff wedi dilyn cwrs ers tro, felly roedd Caryl yn meddwl y byddai'n fuddiol rhoi cyfle iddynt atgoffa eu hunain a diweddarau eu sgiliau. Teimlai hefyd y byddai'r cwrs yn dysgu sgiliau newydd, fel bod ei staff yn dod yn weithwyr mwy effeithlon a all ymdopi ag unrhyw sefyllfa.

A yw ymgymryd â'r cymhwyster wedi cynyddu gwybodaeth a sgiliau'r staff?

Dywed Caryl fod y cwrs wedi helpu ei staff i ddod yn fwy trefnus o ran eu hymarfer, sgil sydd wedi'i datblygu o ganlyniad i'r cymhwyster. Gallant hefyd addasu eu gofal yn dibynnu ar amgylchiadau'r plentyn, a'r hyn y mae'r plentyn yn mynd drwyddo. Mae Caryl yn esbonio bod hyn wedi gwella'r gofal yn ei meithrinfa.

“Mae llawer o weithwyr amser llawn yn teimlo’n ofnus pan fyddan nhw’n clywed am y cwrs, ac maen nhw’n poeni na fyddan nhw’n gallu gwneud yr holl waith cwrs a chydbwyso eu swydd yn ystod y dydd â’u bywyd personol. Ond mae’n bosibl, ac mae modd gwneud hynny.” **Cyflogwr**

8. Casgliadau

Trosolwg

- 8.1 Pwrpas y gwerthusiad hwn oedd asesu effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac effaith y rhaglen PfS, a gyflawnwyd rhwng 2019 a 2023. Yn gyffredinol, fe wnaeth y rhaglen gynnydd tuag at gyflawni nifer o'r deilliannau allweddol a fwriadwyd; adroddwyd bod y cymwysterau a enillwyd gan ymarferwyr wedi cefnogi cynnydd mewn gwybodaeth a sgiliau, gan gefnogi ansawdd darpariaeth gofal plant a chwarae a galluogi lleoliadau i fodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.
- 8.2 Fodd bynnag, oherwydd amrywiaeth o ffactorau, yn y pen draw cyflwynwyd y rhaglen PfS ar raddfa sylweddol lai na'r disgwyl ac roedd nifer y cyfranogwyr a ymgysylltodd â'r rhaglen ac a gafodd eu huwchsgilio, gryn dipyn yn is na'i thargedau cyffredinol. Er bod y nifer targed o gyfranogwyr ar gyfer GCC yn 2,849 rhwng 2016-2023, cymerodd cyfanswm o 1,063 ran yn y rhaglen. Effeithiodd y niferoedd is o gyfranogwyr ar faint o arian ESF a dynnwyd i lawr i gefnogi'r gweithgaredd. Y gwariant terfynol drwy ESF ac arian cyfatebol oedd £3.32 miliwn, o gymharu â gwariant cymwys o £6.9 miliwn.
- 8.3 Gellir priodoli'r lefelau is o ymgysylltu yn GCC a DC i amrywiol ffactorau, gan gynnwys y pandemig COVID-19 a gafodd effaith arwyddocaol, gan ohirio'r rhaglen ac effeithio ar y flaenoriaeth a roddwyd i uwchsgilio mewn lleoliadau gofal plant a chwarae. Effeithiwyd ar y gwaith o ddarparu cymwysterau gan oedi arall a gyfyngodd ar yr amser a oedd ar gael i ddarparu cymwysterau. Dechreuodd y dyfarniadau Trawsnewid i Waith Chwarae, sef mwyafrif y cymwysterau, yn hwyrach na'r disgwyl, gan arwain at lai o ddysgwyr yn cael eu recriwtio. Dyfarnwyd cyllid ar gyfer rhai dyfarniadau yn hwyr hefyd, gan gyd-daro â chyfnod prysur i weithwyr chwarae, a effeithiodd ar eu hargaeledd i ymgysylltu â hyfforddiant. Roedd heriau eraill yn cynnwys llai o alw am brentisiaethau rhan-amser a diffyg darparu llwybrau penodol.
- 8.4 Gan ystyried y trosolwg hwn o gyflawniad y rhaglen, cyflawnwyd nod cyffredinol, amcanion a deilliannau disgwylidig PfS yn rhannol, i raddau helaeth oherwydd ffactorau allanol na ellid bod wedi eu rhagweld na'u lliniaru.

Uwchsgilio'r gweithlu

- 8.5 Roedd tystiolaeth a gasglwyd gan gyfranogwyr, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yn dangos bod y rhaglen wedi llwyddo i gynyddu gwybodaeth a sgiliau gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae. Cymerodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr ran mewn cymwysterau cysylltiedig â gwaith chwarae gan ddweud eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth reoli chwarae a hwyluso chwarae plant. Cadarnhaodd cyflogwyr fod y cymhwyster Trawsnewid i Waith Chwarae wedi cael effaith gadarnhaol ar eu gweithwyr, gan eu gwneud yn ymarferwyr mwy medrus a gwell. Nododd y prentisiaid a gyfwelwyd (CCPLD a Gwaith Chwarae) well gwybodaeth a dealltwriaeth o bolisiau a gweithdrefnau eu lleoliad, a oedd eisoes wedi bod yn ddefnyddiol i rai cyfranogwyr. Cawsant wybodaeth ymarferol a oedd yn eu galluogi i wella eu harferion gofal plant/gwaith chwarae, ac i ddylunio a gweithredu gweithgareddau wedi'u teilwra'n well i anghenion a diddordebau'r plant dan eu gofal. Yn ogystal â hynny, roeddent yn teimlo bod y cynnydd yn eu hyder a'u sgiliau wedi cael effaith gadarnhaol ar eu rhagolygon swydd.
- 8.6 Roedd cyfraniadau at y gwerthusiad gan ymarferwyr a chyflogwyr yn awgrymu bod ymgysylltu â'r rhaglen wedi cefnogi'r deilliant hirdymor o wella ansawdd gofal plant a chwarae. Teimlai'r ymarferwyr eu bod yn fwy gwybodus a hyddysg a bod eu hymarfer yn cael ei arwain yn fwy gan y plentyn nag a oedd yn digwydd yn flaenorol. Dywedwyd bod PfS wedi pwysleisio gwerth cymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu proffesiynol ac adnewyddu eu gwybodaeth i ymarferwyr, rhywbeth sydd â'r potensial i sicrhau manteision tymor hwy i leoliadau a'r sector yn ehangach.
- 8.7 Roedd cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn sbardun pwysig i lawer o leoliadau ac ymarferwyr a gymerodd ran yn PfS. Roedd y cymwysterau a enillwyd yn sicrhau bod llawer o leoliadau'n gallu bodloni'r gofynion. Roedd y cymwysterau gwaith chwarae ychwanegol, yn arbennig, hefyd yn golygu y gallai rhai lleoliadau archwilio cyfleoedd i amrywio eu harlwy, gan alluogi rhai i ehangu eu darpariaeth. Er nad yw'n bosibl mesur effeithiau PfS yn hyn o beth, mae'n rhesymol dod i'r casgliad bod y rhaglen wedi cyfrannu at feithrin capasiti a gallu yn y sector, er bod hynny ar raddfa lai na'r disgwyl.

Dod i gysylltiad â'r Gymraeg a chefnogi'r strategaeth Cymraeg 2050

- 8.8 Mae bron i hanner y cyfranogwyr yn GCC wedi'u cofnodi fel rhai sydd wedi derbyn rhyw fath o ddarpariaeth Gymraeg, gan ragori ar y targed a osodwyd yn y Cynllun Busnes. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r unigolion hyn y cyfwelwyd â nhw mai drwy gyfrwng y Saesneg yr oeddent yn dysgu ac nad oedd y cwestiynau am ddarpariaeth Gymraeg yn berthnasol iddynt, gan awgrymu bod eu cysylltiad ag unrhyw weithgaredd dysgu dwyieithog yn annhebygol o gael llawer o effaith ar eu defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau neu ar dargedau Cymraeg 2050. O blith yr holl gyfranogwyr, dim ond 24 o unigolion sydd wedi'u cofnodi fel rhai sydd wedi cofrestru mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- 8.9 Ni ddarparwyd yr elfen Llwybr at y Gymraeg a gynlluniwyd yn wreiddiol o dan PfS yn y pen draw, a fyddai o bosibl wedi darparu mwy o gyfleoedd i ymarferwyr ehangu eu sgiliau drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, dyrannwyd rhywfaint o'r cyllid hwn i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a ddarparodd adnoddau ychwanegol i ddysgwyr yn y sectorau gofal plant a chwarae, gan gyfrannu ymhellach at y deilliant bod mwy o blant yn dod i gysylltiad â'r Gymraeg.

Denu unigolion o gefndiroedd amrywiol

- 8.10 Roedd cyfranogiad unigolion o gymunedau lleiafrifoedd ethnig ac unigolion anabl yn is na'r ffigurau targed a amlinellwyd yn y Cynllun Busnes. Nid oedd darparwyr hyfforddiant yn targedu segmentau penodol o'r gweithlu ond yn hytrach yn hyrwyddo cymwysterau i gyflogwyr, a oedd yn eu gwneud yn hygyrch i bob gweithiwr cymwys. Fodd bynnag, cymerodd rhai darparwyr fesurau i adolygu eu deunyddiau marchnata a chynnwys eu cyrsiau o fewn y fframwaith prentisiaeth ehangach. Nid oes data cymharol ar gael ar gyfansoddiad y gweithlu gofal plant a chwarae yng Nghymru.

Cefnogi cynaliadwyedd y sector

- 8.11 Prin oedd y dystiolaeth a oedd ar gael ynghylch effaith PfS ar gynaliadwyedd y sector gofal plant a chwarae, gan na ellid casglu data meintiol gan gyflogwyr ynghylch cynaliadwyedd eu busnes. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y sectorau wedi wynebu heriau sylweddol yn ystod cyfnod cyflawni'r rhaglen, yn enwedig gyda dyfodiad y pandemig COVID-19 a effeithiodd ar gynaliadwyedd llawer o leoliadau. Fodd bynnag, canfu'r gwerthusiad fod darparu cymwysterau

chwarae wedi gwneud cyfraniad hollbwysig at gefnogi lleoliadau i agor darpariaeth chwarae newydd neu barhau i fod yn weithredol yn dilyn y newid yn rheoliadau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ym mis Medi 2022. Heb y cymwysterau hyn roedd risg y byddai lleoliadau wedi cael eu gorfodi i gau neu ddadgofrestru oherwydd prinder staff cymwys.

Gwerth am arian

- 8.12 Cyfyngwyd yr asesiad o werth am arian y rhaglen i amcangyfrif y gost fesul cyfranogwr dros gyfnod y rhaglen, gan gymharu hyn â'r gost ragamcanol, a nodir yn y Cynllun Busnes. Arweiniodd y nifer lai o ymarferwyr a gafodd gymorth drwy'r rhaglen ynghyd â'r cyfanswm gwariant is, at gost gyfartalog uwch o £3,074 fesul cyfranogwr. Mae hyn tua 27 y cant yn uwch na'r gost gyfartalog a ragwelwyd fesul cyfranogwr. Nid yw'r ffigur hwn yn gwahaniaethu rhwng cyfranogwyr a gafodd gymorth drwy'r brentisiaeth a'r pontio i lwybrau chwarae.
- 8.13 Er gwaethaf y gost uwch fesul cyfranogwr ar draws y rhaglen, roedd cynnwys cyrsiau byrrach ar gyfer dyfarniadau trawsnewid i waith chwarae o 2019 ymlaen fel rhan o'r rhaglen yn ffordd effeithlon o ddiwallu anghenion y sector. O gymharu â chostau darparu prentisiaethau, roedd y dull mwy cyfunol a ddefnyddiwyd gan y rhaglen yn golygu bod PfS yn cynrychioli gwerth rhesymol am arian o ran y gost fesul cyfranogwr.
- 8.14 Fel y nodwyd yn adrannau cyntaf yr adroddiad, canfuwyd bod y rhaglen wedi arwain at fanteision lluosog i gyflogwyr a chyfranogwyr ac wedi cyfrannu at wella ansawdd y ddarpariaeth mewn lleoliadau gofal plant a chwarae.
- 8.15 Pe na bai PfS wedi bod ar gael fel dull o gefnogi uwchsgilio'r gweithlu, byddai'n debygol y byddai'r angen i leoliadau gydymffurfio â gofynion cymwysterau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol wedi ysgogi llawer iawn o leoliadau i wneud trefniadau i ymarferwyr ymgymryd â chymwysterau gwaith chwarae. Felly, mae'n rhesymol tybio y byddai llawer o'r rhai a ddilynodd ac a gwblhaodd gymwysterau wedi dilyn yr un cymwysterau neu gymwysterau tebyg drwy lwybrau eraill os oeddent ar gael, gan awgrymu bod cryn ddifuddiant yn gysylltiedig â'r deilliannau a gyflawnwyd drwy PfS o ran y cymwysterau a enillwyd.
- 8.16 Ychydig o dystiolaeth a ganfu'r gwerthusiad o effaith ar enillion cyfranogwyr o ganlyniad i gwblhau cymhwyster o dan PfS.

- 8.17 O ran dadleoli, nid oedd yn ymddangos bod dilyn cymwysterau a ariannwyd gan PfS wedi atal ymarferwyr rhag cwblhau unrhyw gyrsiau eraill a gynlluniwyd nac wedi cael effaith andwyol ar weithgaredd dysgu proffesiynol lleoliadau. Fodd bynnag, mae'r sylwebaeth rannol hon ar effeithiau dadleoli (ac yn wir, effeithiau difuddiant) wedi'i chyfyngu gan y data ansoddol a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad.
- 8.18 Er gwaethaf yr heriau, dengys y gwerthusiad fod galw parhaus am gymwysterau wedi'u hariannu yn y sectorau gofal plant a chwarae. O ystyried y canfyddiadau hyn, nodwyd nifer o argymhellion ar gyfer y dyfodol, a fyddai'n gwella effeithiolrwydd ac effaith unrhyw fentrau tebyg.

Argymhelliad 1: Cefnogaeth barhaus ar gyfer uwchsgilio

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi uwchsgilio'r gweithlu gofal plant a chwarae, gan hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dilyniant a chefnogi cadw saff.

Argymhelliad 2: Cefnogi uwchsgilio gwirfoddolwyr

Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ffyrdd o ymgysylltu â gwirfoddolwyr o leoliadau chwarae a gofal plant fel rhan o fentrau yn y dyfodol i uwchsgilio gweithwyr yn y sectorau hyn. Gan gydnabod rôl allweddol gwirfoddolwyr, gallai hyn gynnig llwybr o wirfoddoli i gyflogaeth a helpu i fynd i'r afael â phrinder gweithlu a darparu cymorth ychwanegol i leoliadau.

Argymhelliad 3: Parhau i ymchwilio i ffyrdd o ddarparu hyblygrwydd wrth ddysgu

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ymchwilio i ffyrdd o gynnwys mwy o hyblygrwydd mewn rhaglenni hyfforddi gofal plant a chwarae, gan sicrhau y gall unrhyw raglen yn y dyfodol ddarparu ar gyfer gwahanol fathau o ddysgwyr, lleoliadau a sefyllfaoedd.


Argymhelliad 4: Gwella prosesau casglu data

Fel rhan o unrhyw raglenni hyfforddi yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru gasglu manylion cyswllt cyflogwyr a'u cydsyniad i gymryd rhan mewn gweithgaredd gwerthuso er mwyn cael dealltwriaeth o effaith y rhaglen ar eu lleoliad.

Argymhelliad 5: Sicrhau bod dysgwyr a chyflogwyr yn glir ynghylch yr ymrwymiad amser sy'n gysylltiedig â chymwysterau

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod dysgwyr yn cael gwybod am yr ymrwymadau amser sy'n gysylltiedig â chwblhau cymwysterau gofal plant a chwarae amrywiol, gan gynnwys sesiynau a gwaith cwrs a gwblhawyd y tu allan i oriau gwaith arferol, lle y bo'n berthnasol. Byddai hyn yn galluogi cyfranogwyr a chyflogwyr i ddeall a chynllunio eu hamser a'u hamserlenni yn well.

Atodiad 1: Model Rhesymeg Cynnydd ar gyfer Llwyddiant



Ffynhonnell: Dogfennau gwahoddiad i dendro

Atodiad 2: Offer Ymchwil

Canllawiau holi ar gyfer cyfweiliadau â

- Chyfranogwr
- Cyflogwyr
- Darparwyr Hyfforddiant
- Rhanddeiliaid

Hysbysiadau Preifatrwydd ar gyfer

- Cyfweiliadau â Chyfranogwyr
- Cyfweiliadau â Rhanddeiliad
- Cyfweiliadau â Chyflogwyr
- Cyfweiliadau â Darparwr Hyfforddiant

CWESTIYNAU I GYFRANOGWYR: GWERTHUSIAD O'R RHAGLEN CYNNYDD AR GYFER LLWYDDIANT (PfS)

Pwrpas y cyfweiliadau – nodyn i'r cyfwelydd

Mae'r rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant (PfS) yn ariannu gweithwyr presennol i ymgymryd â chymwysterau cydnabyddedig ar gyfer gofal plant a chwarae er mwyn cynyddu eu sgiliau, felly bydd y cyfweiliadau'n holi'r cyfranogwyr am eu canfyddiad o gynnydd yn eu sgiliau. Bydd y cyfweiliadau hefyd yn mynd i'r afael â'r eitemau canlynol o ran nodau ac amcanion y gwerthusiad

- *Asesu effaith ac effeithiolrwydd PfS o ran cynyddu sgiliau gweithluoedd y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae ac unrhyw wahaniaethau ar lefel sector neu is-sector.*
- *Asesu cynlluniau peilot y cymwysterau CCPLD a Gwaith Chwarae o ran hyblygrwydd a darpariaeth estynedig o fewn y fframwaith Prentisiaeth.*
- *Nodi cryfderau allweddol y rhaglen ac unrhyw gyfyngiadau/materion a allai fod wedi amharu ar ei heffeithiolrwydd.*
- *Cyflwyno argymhellion a gwersi a ddysgwyr er mwyn bod yn sail i bolisïau yn y dyfodol er mwyn cefnogi datblygu sgiliau.*

Pwy fydd yn cael ei gyfweld

Bydd y cwestiynau hyn yn cael eu gofyn i ddau brif grŵp o gyfranogwyr

Cymhwyster drwy'r Fframwaith Prentisiaeth

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (CCPLD Lefelau 2 a 3) *neu* Gwaith Chwarae (Lefelau 2 a 3) drwy'r fframwaith Prentisiaeth i ymarferwyr sy'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos.

(Cwrs byrrach) Llwybr at Chwarae (dyfarniadau Lefelau 2 a 3) ar gyfer ymarferwyr blynyddoedd cynnar presennol i roi iddynt y cymwysterau perthnasol i fodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol erbyn mis Medi 2022.

Cefndir a chyflogaeth

1. Gwybodaeth am broffil: Esboniwch ychydig am eich cymhwyster

Sicrhewch fod yr holl eitemau canlynol wedi'u cwmpasu [Cadarnhewch fanylion o'r gronfa ddata]:

:

- Pa gwrs
- Gyda pha ddarparwr hyfforddiant (os yw'n hysbys)
- I ba gyflogwr yr oeddech yn gweithio pan wnaethoch chi ymgymryd â'r cymhwyster.
- [Ar gyfer y llwybr fframwaith prentisiaeth] Beth oedd eich oriau gwaith pan wnaethoch chi ddilyn y cwrs?

2. Swydd bresennol: Beth yw eich rôl bresennol ac a oes unrhyw newid wedi bod yn eich rôl ers i chi ddechrau'r cymhwyster?

Prociwch os oes angen:

- Ydych chi'n dal i weithio i'r un cyflogwr?
 - [Os ydych] Beth yw eich rôl bresennol?
 - Ydych chi'n gwneud yr un rôl am yr un nifer o oriau ag yr oeddech chi pan ddechreuoch chi'r cymhwyster neu a yw eich rôl wedi newid?]
 - [Os yw'r rôl wedi newid] I ba raddau y gwnaeth cwblhau'r cymhwyster arwain at newid yn eich rôl? A wnaeth ennill y cymhwyster arwain yn uniongyrchol / arwain yn anuniongyrchol / heb arwain at newid yn eich rôl?
- [Os naddo] Ydych chi'n dal i weithio yn y sector gofal plant neu chwarae ar hyn o bryd?
 - Os ie, prociwch:
 - Rhesymau dros newid eich swydd.
 - Sut yr effeithiodd newid swyddi ar y cymhwyster?
 - Pa mor hawdd neu anodd oedd hi i chi a'ch cyflogwyr barhau â'r cymhwyster wrth i chi newid swydd?

- [Os nad ydych yn gweithio yn y sector gofal plant neu chwarae mwyach] Ym mha sector ydych chi'n gweithio nawr? Beth oedd eich rhesymau dros adael y sector gofal plant neu chwarae?

Rhesymau dros gymryd rhan

3. Sut clywsoch chi am PfS / y cyfle i ennill cymhwyster?

- Prociwch: Drwy gyflogwr / Cydweithiwr / ar dafod leferydd / sector (pwy?)

4. Beth oedd eich rhesymau dros ddilyn y cymhwyster?

- Prociwch:
- Oeddech chi eisiau dysgu mwy / cael dyrchafiad / ac ati?
- A wnaeth eich cyflogwr argymhell eich bod yn cwblhau'r cymhwyster?

Barn ynghylch y cwrs

5. Beth oedd eich profiad o ddilyn y cymhwyster?

